**Rhif: WG53756**

Llywodraeth Cymru

# Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig) Drafft

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar reoliadau drafft i bennu safonau'r Gymraeg ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ac ar gynnig i ychwanegu Cartrefi Cymunedol Cymru at Atodlen 6 i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, ac yna i Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) rhwng 24 Mehefin ac 16 Medi 2025.

10 Chwefror 2026

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

OGL © Hawlfraint y Goron xxxx
ISBN Digidol 978-1-83745-049-7

## Trosolwg

Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am farn ar gynigion i ddod â landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ('LCCiaid') fel darparwyr tai cymdeithasol o dan safonau'r Gymraeg ('safonau'), ac ar gynnig i ychwanegu Cartrefi Cymunedol Cymru ('CCC') at Atodlen 6 i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ('Mesur'), ac yna i Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) ('Rheoliadau Rhif 2'). Os cânt eu gwneud, bydd Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 10) ('Rheoliadau') yn galluogi Comisiynydd y Gymraeg ('Comisiynydd') i osod dyletswyddau ar LCCiaid a CCC. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

## Camau i'w Cymryd

Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn iaith arall.

## Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

Is-adran Cymraeg 2050
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: Cymraeg2050@llyw.cymru

## Copïau ychwanegol

Cyhoeddir y crynodeb hwn o'r ymatebion a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghori ar ffurf electronig yn unig a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Dolen i'r ddogfen ymgynghori: Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig) | LLYW.CYMRU

## Cynnwys

Cynnwys ........ 3
1. Cyflwyniad ........ 4
2. Yr ymgynghoriad ........ 4
3. Pwy ymatebodd i'r ymgynghoriad ........ 4
4. Crynodeb o'r Ymatebion ........ 5
5. Y Camau Nesaf ........ 34

## 1. Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn rhoi trosolwg o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar Reoliadau drafft. Diben yr ymgynghoriad oedd ceisio barn ar y Rheoliadau drafft a fydd yn dod â LCCiaid fel darparwyr tai cymdeithasol yng Nghymru o dan safonau, ac ar gynnig i ychwanegu CCC, y corff sy'n cynrychioli LCCiaid, at Atodlen 6 i'r Mesur ac yna at Reoliadau Rhif 2.

## 2. Yr ymgynghoriad

Gwahoddwyd safbwyntiau yn ystod cyfnod ymgynghori deuddeg wythnos, a ddechreuodd ar 24 Mehefin ac a ddaeth i ben ar 16 Medi 2025.

Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar wefan Llywodraeth Cymru. Roedd modd i ymatebwyr gyflwyno eu safbwyntiau a'u sylwadau ar bapur, drwy e-bost neu ar-lein, ac yn Gymraeg neu yn Saesneg. E-bostiwyd dolen i'r ymgynghoriad at amrywiaeth o randdeiliaid gan gynnwys LCCiaid drwy CCC, rhanddeiliaid ehangach o'r sector tai, a rhanddeiliaid polisi iaith Gymraeg.

Yn ystod y cyfnod ymgynghori, daethom o hyd i broblem gyda fersiwn Saesneg y Rheoliadau drafft. Fe wnaethom asesu'r mater a dod i'r casgliad ei bod yn annhebygol y byddai wedi cael effaith sylweddol ar yr ymatebion. Gwnaethom gymryd camau i gywiro a thynnu sylw rhanddeiliaid perthnasol at y mater, gan gynnwys y nodyn canlynol ar dudalen we'r ymgynghoriad er eglurder a thryloywder:

*"Nodwyd rhai mân anghysondebau rhwng fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r Rheoliadau drafft ar ôl eu cyhoeddi. Mae hyn bellach wedi cael ei gywiro. Mae hyn wedi'i asesu a'i farnu yn annhebygol o fod wedi effeithio'n sylweddol ar ymatebion. Mae eglurhad wedi'i gyhoeddi trwy rwydweithiau cynrychioliadol a'i ychwanegu at dudalen yr ymgynghoriad er tryloywder."*

## 3. Pwy ymatebodd i'r ymgynghoriad

Cafwyd cyfanswm o 38 ymateb i'r ymgynghoriad. Mae'r holl ymatebion wedi cael eu hystyried a'u dadansoddi. Daeth yr ymatebion gan y grwpiau diddordeb canlynol:

| Categori'r Ymatebydd | Nifer |
|---|---|
| Aelodau o'r cyhoedd | 7 |
| Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig | 19 |
| Rhanddeiliaid tai | 3 |
| Rhanddeiliaid y Gymraeg | 3 |
| Awdurdodau Lleol | 4 |
| Arall (Anhysbys) | 2 |
| **Cyfanswm** | **38** |

Cafwyd 15 o ymatebion drwy'r ffurflen ar-lein oedd ar gael drwy wefan Llywodraeth Cymru, a chafwyd 23 o ymatebion drwy e-bost. Gofynnodd nifer o ymatebwyr i'w hymateb gael ei gadw'n ddienw, gan gynnwys rhai cyrff. Roedd rhai ymatebion yn

cynnig sylwadau nad oeddent yn ateb y cwestiynau yn y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad yn benodol. Mae eu sylwadau wedi'u cynnwys o dan y cwestiwn mwyaf priodol. Ni roddodd un LCC ei ymateb unigryw ei hun; yn hytrach, cyfeiriodd at ymateb CCC yr oedd wedi bwydo i mewn iddo.

Nod y ddogfen hon yw cyflwyno'r safbwyntiau a'r themâu eang a ddarparwyd mewn ymatebion i'r ymgynghoriad, yn hytrach na chrynhoi pob ymateb unigol. Mae'r ymatebion wedi'u crynhoi yn ôl y grwpiau diddordeb a nodir yn y tabl uchod.

Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar i bawb sydd wedi cyflwyno ymateb. Fel dogfen gryno, efallai nad yw'r holl faterion a amlinellwyd yn yr ymatebion wedi cael eu hadlewyrchu'n llawn, ond mae pob ymateb wedi cael ei ystyried yn ofalus. Nid yw diffyg materion neu awgrymiadau penodol yn y crynodeb hwn yn golygu eu bod wedi cael eu diystyru.

## 4. Crynodeb o’r Ymatebion

**Cwestiwn 1 – A oes gennych unrhyw sylwadau ar y safonau cyflenwi gwasanaethau a gynigir yn y rheoliadau drafft ar gyfer landlordiaid cymdeithasol cofrestredig (LCCiaid)?**

Aelodau o’r cyhoedd

Ni wnaeth 4 aelod o'r cyhoedd ymateb na chynnig sylwadau i'r cwestiwn hwn.

Cafwyd sylwadau gan 3 aelod o'r cyhoedd oedd yn gwrthwynebu'r cynnig polisi yn gyffredinol. I raddau helaeth, roedd ymatebwyr o'r farn bod y cynnig yn ddefnydd diangen a biwrocrataidd o amser ac adnoddau yn ystod caledi economaidd, gan ddadlau y dylai ymdrechion ganolbwyntio ar dai a materion cymdeithasol. Roedd 2 ymatebydd yn cydnabod gwerth diwylliannol y Gymraeg, ond roeddent yn teimlo bod y polisi'n gosod beichiau heb fanteision ystyrlon.

LCCiaid

Cyflwynodd 17 o LCCiaid sylwadau oedd yn ymwneud yn benodol â'r cwestiwn hwn; cyflwynodd 16 sylwadau ynglŷn â safonau neu weithgareddau penodol; cyflwynodd rhai LCCiaid sylwadau ar nifer fach o safonau tra bod eraill wedi cyflwyno sylwadau ar ystod ehangach o safonau. Cyfeiriodd 1 LCC at ymateb CCC, ac ni wnaeth 1 LCC arall ymateb yn benodol i’r cwestiwn hwn.

Yn gyffredinol, roedd LCCiaid yn cefnogi'r egwyddor o safonau, gan gydnabod eu potensial i wella gwasanaethau dwyieithog a hyrwyddo'r Gymraeg. Roeddent yn croesawu'r hyblygrwydd yn y Rheoliadau drafft a'r cyfle pellach i ymgysylltu â'r Comisiynydd, ond yn pwysleisio pwysigrwydd cymesuredd a gweithrediad graddol i adlewyrchu'r galw lleol amrywiol. Roedd y prif bryderon yn cynnwys goblygiadau cost (e.e. cyfieithu, uwchraddio TG, hyfforddi staff), a heriau recriwtio, gan nodi’r angen am ganllawiau clir, amserlenni realistig, a chymorth gan Lywodraeth Cymru.

Roedd rhai o'r themâu cyffredin ar draws yr ymatebion yn cynnwys y canlynol:

- Galwadau am hyblygrwydd, dulliau haenog neu seiliedig ar drothwyon, a gweithredu graddol.

- Ceisiadau am eglurder ynghylch diffiniadau (e.e. gohebiaeth, peiriannau hunanwasanaeth, cyrsiau addysg).
- Awgrymiadau i ddefnyddio caniatâd dealledig neu ddata Cyfrifiad.
- Galwadau am ganllawiau cliriach ar ddefnyddio offer cyfieithu deallusrwydd artiffisial ac eithriadau ar gyfer trydydd partïon neu gyd-destunau arbenigol.

Isod ceir trosolwg o'r sylwadau a dderbyniwyd gan LCCiaid ynglŷn â safonau cyflenwi gwasanaethau penodol. At ddibenion y crynodeb hwn, mae rhai ymatebion i gwestiwn 2 wedi cael eu grwpio gyda'r cwestiwn hwn i sicrhau bod sylwadau tebyg mewn ymateb i gwestiynau ar wahân yn cael eu hystyried gyda'i gilydd. Mae cyfeiriadau at rifau safonau yn gyfeiriadau at y rhifau yn y Rheoliadau drafft oedd yn destun ymgynghoriad.

- **Gohebiaeth (Safonau 1–7):** Pryderon ynghylch oedi, cost a chyfyngiadau TG i gefnogi ymarferoldeb dwyieithog a gofynnwyd am eglurhad ynghylch a yw negeseuon e-bost, negeseuon testun a chyfathrebu ar lafar yn cael eu hystyried yn ohebiaeth. Cafwyd ceisiadau hefyd am hyblygrwydd wrth weithredu, gan gynnwys eithriadau lle nad yw dewis iaith yn hysbys.
- **Ffôn (Safonau 8–22):** Adroddwyd am heriau wrth recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg, gan ei gwneud yn anodd bodloni safonau ffôn, gydag awgrymiadau am ddewisiadau amgen fel gwasanaethau cyfieithu neu rannu adnoddau. Gwnaeth rhai sylw ynghylch cyfyngiadau technegol yn y systemau ffôn presennol gan ofyn am gysylltu cydymffurfiaeth ag adnewyddu systemau. Gofynnwyd hefyd am eglurhad ynghylch y diffiniad o “unigolyn” a sut mae safonau sy’n ymwneud â galwadau uniongyrchol i staff yn berthnasol i ffonau symudol neu bersonol.
- **Cyfarfodydd nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol (Safonau 23–24CH):** Gofynnwyd am eglurhad ynghylch a yw cyfarfodydd gyda thenantiaid yn dod o fewn y term “cyhoedd” a rhai pryderon ynghylch heriau logistaidd trefnu staff sy’n siarad Cymraeg ar gyfer cyfarfodydd sy’n cynnwys nifer o gyfranogwyr neu a gynhelir mewn cartrefi tenantiaid.
- **Cyfarfodydd sy'n agored i'r cyhoedd (Safonau 25–29):** Codwyd pryderon ynghylch cost uchel darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gyfer pob cyfarfod sy'n agored i'r cyhoedd, yn enwedig lle mae'r galw'n isel, gan awgrymu dull sy'n seiliedig ar drothwy a / neu ddefnyddio cyfieithu o bell neu wedi'i bweru gan ddeallusrwydd artiffisial. Gofynnodd rhai hefyd am eglurhad ynghylch a yw'r safonau'n berthnasol i gyfarfodydd ar-lein ac ymweliadau anffurfiol, gyda nifer fach yn gofyn am eithriadau penodol (e.e. ar gyfer cyfarfodydd yn ymwneud â lles, cymorth tenantiaeth, a diogelu).
- **Digwyddiadau Cyhoeddus (Safonau 30–31):** Cynigion ar gyfer defnyddio trothwy isafswm cyllido i benderfynu pryd mae'r safonau hyn yn berthnasol, yn hytrach na chanran, er mwyn osgoi beichiau anghymesur ar ddigwyddiadau cymunedol bach.
- **Cyhoeddusrwydd a Hysbysebu (Safon 32):** Roedd cefnogaeth o ddeunyddiau dwyieithog ond gofynnwyd am eglurhad ynghylch cymhwysiad ôl-weithredol. Roedd llawer yn dadlau dros ddehongliad o fewn y Rheoliadau bod y safon ond yn berthnasol i ddeunydd newydd neu ddeunydd sydd wedi'i adnewyddu, gan ddilyn dull tebyg o ymdrin â safonau sy'n ymwneud ag arwyddion.

- **Dogfennau a Ffurflenni (Safonau 35–39):** Ceisiadau i'r safonau fod yn berthnasol i ddogfennau a lunnir gan y LCC yn unig.
- **Gwefannau (Safonau 40–44):** Gofynnwyd am eglurhad ynghylch a yw'r safonau'n berthnasol i gynnwys wedi'i fewnblannu, platfformau trydydd parti, a deunyddiau sydd wedi'u hailgyhoeddi.
- **Apiau (Safon 45):** Nododd LCCiaid heriau technegol ac ariannol i sicrhau bod apiau'n gwbl ddwyieithog; gwnaed cynigion ar gyfer dull haenog a bod y safon ond yn berthnasol i apiau newydd neu apiau sydd wedi'u diwygio'n sylweddol.
- **Cyfleuster Sgwrsio Byw (Safon 46):** Nododd LCCiaid heriau staffio a thechnegol, gan awgrymu dull haenog a'r gallu i ddefnyddio offer cyfieithu deallusrwydd artiffisial gydag ymwadiadau a gwaith gwirio dilynol gan bobl.
- **Cyfryngau Cymdeithasol (Safonau 47–48):** Ceisiadau am ganllawiau cliriach ar ofynion dwyieithog ar gyfer cyfryngau cymdeithasol (e.e. a yw'r safonau'n berthnasol i grwpiau caeedig). Roedd rhai pryderon hefyd ynghylch dyblygu ac ymarferoldeb, gan awgrymu y gallai cyfrifon Cymraeg ar wahân arwain at golli diweddariadau.
- **Peiriannau Hunanwasanaeth (Safon 49):** Gofynnodd nifer am ddiffiniad clir ac aliniad â safonau gwefannau i sicrhau cysondeb ac osgoi gofynion anghymesur ar gyfer dyfeisiau sydd â swyddogaethau cyfyngedig.
- **Arwyddion a Hysbysiadau (Safonau 50–51):** Cais am eithriadau penodol (e.e. arwyddion mewn llety â chymorth a rennir) a chwestiynu'r gofyniad i'r Gymraeg ymddangos yn gyntaf.
- **Derbyn Ymwelwyr (Safonau 52–56):** Adroddodd LCCiaid eu bod yn cael trafferth recriwtio staff derbynfa sy'n siarad Cymraeg a gofynnwyd am hyblygrwydd, gan nodi galw uwch am ieithoedd eraill. Roeddent eisiau parhau i ddefnyddio gwasanaethau llinell iaith, gan ofyn hefyd am eglurder ynghylch beth yw "lleoliad gwasanaeth".
- **Hunaniaeth Gorfforaethol (62):** Gofynnwyd am ganllawiau ar gwmpas y safon a nodwyd pryderon ynghylch cost ac anghymesuredd, gyda chynigion i gymhwyso'r safon i frandio newydd neu ddiwygiedig yn unig.
- **Cyrsiau (63–64):** Gofynnwyd am eglurhad ynghylch beth sy'n cyfrif fel "cwrs addysg", a yw hyfforddiant mewnol i staff neu wirfoddolwyr wedi'i gynnwys, a cheisiadau am hyblygrwydd ar gyfer pynciau arbenigol lle nad oes tiwtoriaid sy'n siarad Cymraeg ar gael.
- **Systemau Annerch Cyhoeddus (65):** Eglurhad ynghylch a yw defnydd dros dro neu anffurfiol mewn digwyddiadau cymunedol yn dod o dan y safon.

Er eu bod yn cefnogi'r uchelgais i gryfhau'r ddarpariaeth Gymraeg, roedd LCCiaid yn annog dull pragmatig sy'n sensitif i gyd-destun i sicrhau bod safonau'n ymarferol, yn gynhwysol, ac nad ydynt yn dargyfeirio adnoddau oddi wrth wasanaethau craidd o ran tai.

Rhanddeiliaid polisi tai

CCC oedd yr unig randdeiliad i ymateb yn benodol i'r cwestiwn hwn. Roedd ymateb CCC yn pwysleisio'r angen am ddull hyblyg a chymesur o ymdrin â safonau, i adlewyrchu'r raddfa, y gwasanaethau a'r anghenion ieithyddol amrywiol ledled

Cymru. Tynnodd sylw at amrywiad sylweddol yn y galw gan denantiaid am y Gymraeg, gyda rhai ardaloedd yn dangos ychydig iawn o ddefnydd o'i gymharu ag ieithoedd cymunedol eraill. Anogodd CCC Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg (‘y Comisiynydd’) i sicrhau bod safonau’n darparu ar gyfer cyd-destunau lleol ac yn caniatáu gweithredu graddol, gan nodi bod llawer o’r safonau drafft eisoes yn darparu ar gyfer yr hyblygrwydd hwn. Fodd bynnag, nododd CCC bryderon a chynigiodd rai newidiadau i'r safonau cyflenwi gwasanaethau canlynol yn y Rheoliadau drafft oedd yn destun ymgynghoriad:

- **Cyfarfodydd sy'n agored i'r cyhoedd (Safonau 25–29):** mabwysiadu dull isafswm % gofynnol, ac annog atebion mwy cost-effeithiol fel cyfieithu o bell neu gyfieithu drwy ddeallusrwydd artiffisial;
- **Digwyddiadau cyhoeddus (Safonau 30–31):** argymell gosod trothwy isafswm cyllido yn hytrach na chanran;
- **Deunydd cyhoeddusrwydd a hysbysebu (Safon 32):** pryderon ynghylch cymhwysiad ôl-weithredol y safon, gydag argymhelliad i’r Rheoliadau gynnwys dehongliad sy'n nodi mai dim ond i ddeunyddiau newydd sy’n cael eu llunio neu eu diwygio'n sylweddol y mae'r gofyniad yn berthnasol;
- **Apiau a gyhoeddir gan gorff (Safon 45):** tynnwyd sylw at heriau cydymffurfio ag apiau a ddarperir gan drydydd partïon a chymhlethdodau technegol, gan awgrymu dull haenog tebyg i wefannau a bod y safon hefyd yn berthnasol i apiau newydd sy’n cael eu creu neu sy'n cael eu diwygio'n sylweddol;
- **Cyfleuster sgwrsio byw (Safon 46):** cais am ddull gweithredu haenog er mwyn gallu gweithredu'n fwy hyblyg i fynd i'r afael â heriau gweithredol ac adnoddau;
- **Peiriant hunanwasanaeth (Safon 49):** cais i’r Rheoliadau ddarparu diffiniad o "beiriant hunanwasanaeth", a hefyd dull haenog;
- **Cyrsiau (Safonau 63–64):** gofyn am eglurhad o’r hyn sy’n gymwys fel “cwrs addysg” ac a yw’r safonau hyn yn berthnasol i bob lefel o hyfforddiant neu gyrsiau a ddarperir gan LCCiaid, neu’n benodol i gyrsiau addysg a ddarperir gan ddarparwyr addysg allanol. Cafwyd cais hefyd am fwy o hyblygrwydd.

Nid ymatebodd TPAS Cymru na Tai Pawb gan ddefnyddio templed y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad. Gwelodd TPAS Cymru gyfle drwy wasanaethau digidol fel pyrth, apiau, y cyfryngau cymdeithasol a sgwrsfotiaid i atgyfnerthu'r defnydd o'r Gymraeg, gan rybuddio'r angen i liniaru yn erbyn dulliau symbolaidd a chyfathrebu israddol. Pwysleisiodd yr angen am ganllawiau clir ac adnoddau digonol ar gyfer LCCiaid.

Roedd Tai Pawb yn cefnogi'r cynnig i ddod â LCCiaid o dan safonau, gan nodi bod cyfle i wreiddio'r Gymraeg yn y dull cymhwysedd diwylliannol ehangach ochr yn ochr â dyletswyddau hygyrchedd a chydraddoldeb eraill. Roeddent o'r farn y gall y Rheoliadau ddod â chysondeb ac eglurder i gyrff a hawliau gorfodadwy i denantiaid. Tynnodd Tai Pawb sylw at bwysigrwydd sicrhau bod fersiynau Cymraeg yn cael eu hintegreiddio'n ofalus ochr yn ochr ag ystyriaethau ar gyfer hygyrchedd digidol a dylunio cynhwysol wrth ddylunio gwefannau, apiau a phyrth tenantiaid, yn enwedig i denantiaid sydd â llythrennedd digidol is. Pwysleisiwyd hefyd bod angen i opsiynau nad ydynt yn ddigidol fod ar gael yn ogystal.

<u>Rhanddeiliaid polisi’r Gymraeg</u>

Cyflwynodd y 3 ymatebydd sylwadau a oedd yn berthnasol i'r cwestiwn hwn.

Nododd Dyfodol i’r Iaith eu bod yn croesawu’r cynnig polisi a’i fod yn gam i’r cyfeiriad i sicrhau tegwch a chydraddoldeb ieithyddol.

Croesawodd Cymdeithas yr Iaith y safonau sy'n ymwneud ag apiau a chyfleusterau sgwrsio byw. Roeddent hefyd yn ystyried nad oedd darpariaeth ar gyfer negeseuon testun awtomatig, ac y dylai'r Rheoliadau gynnwys safonau ynghylch dyfarnu contractau. Yn ogystal, roeddent yn awgrymu safon newydd a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i LCCiaid ddefnyddio gwybodaeth am ddewis iaith i wneud pob ymdrech resymol i ddarparu gweithiwr cynnal a chadw a thrwsio sy'n gallu siarad Cymraeg i denantiaid er mwyn cwrdd â’r dymuniad hwnnw. Fe wnaethant hefyd nodi rhai sylwadau ar Ran 2 y safonau cyflenwi gwasanaethau, gan gynnwys pa safonau yn ymwneud â gohebiaeth a derbyn ymwelwyr a ddylai neu na ddylai fod yn ddibynnol ar ei gilydd.

Roedd y Comisiynydd yn ystyried y dylai bod safonau ychwanegol ynglŷn â llesiant er mwyn sicrhau bod anghenion ieithyddol tenantiaid yn cael eu diwallu’n llawn pan fydd angen gofal a chymorth arnynt. Gwnaeth y Comisiynydd hefyd awgrymu creu safon benodol ar gyfer platfformau fel pyrth ac ailystyried geiriad y safonau cyfryngau cymdeithasol i sicrhau eu bod yn darparu ar gyfer platfformau sy'n fwy dibynnol ar luniau, fideos a ffrydio byw yn hytrach na deunydd ysgrifenedig.

Awgrymodd Cymdeithas yr Iaith a'r Comisiynydd y dylid creu safon benodol ar gyfer clipiau fideo a sain er mwyn sicrhau bod darpariaeth Gymraeg ar gyfer y deunydd hwn. Mae Cymdeithas yr Iaith hefyd o'r farn y dylai bod gofyniad i gynnwys is-deitlau Cymraeg ar fideos Saesneg sy'n cael eu creu ar gyfer y cyhoedd.

<u>Awdurdodau Lleol</u>

Ymatebodd 4 awdurdod lleol i'r cwestiwn hwn.

Roedd yr ymatebion gan awdurdodau lleol yn debyg yn gyffredinol gyda phob un o'r 4 awdurdod lleol yn cefnogi cynnwys safonau cyflenwi gwasanaethau ar gyfer LCCiaid.  Pwysleisiwyd ganddynt y pwysigrwydd bod safonau cyfathrebu yn glir o ran cyfathrebu â phobl mewn fformatau gwahanol a bod gwasanaethau Cymraeg ar gael i bawb yng Nghymru, waeth ble mae'r cwmni wedi'i sefydlu a beth yw maint eu stoc tai. Roeddent yn tynnu sylw at gyfleoedd i gydweithio â chyrff profiadol sydd eisoes yn ddarostyngedig i safonau i rannu arferion da, adnoddau a gwasanaethau fel cyfieithu a hyfforddiant. Nododd 1 awdurdod lleol y byddai safonau'n ei gwneud yn ofynnol i LCCiaid addasu'r gwasanaethau a ddarperir i siaradwyr Cymraeg a allai gynyddu costau a'r galw am adnoddau ond gallai hefyd wella mynediad at wasanaethau a chefnogi'r iaith drwy roi mwy o hyder i siaradwyr Cymraeg.

<u>Arall (Anhysbys)</u>

Rhoddodd 2 ymatebydd ‘arall’ sylwadau mewn ymateb i gwestiwn 1. Nododd 1 ymatebydd fod disgwyl i staff tai allu siarad Cymraeg yn afresymol ac y dylid ystyried lefel y galw.

Awgrymodd ymatebydd arall ddileu neu ddiwygio rhai safonau sy'n ymwneud â gohebiaeth, a gwefannau gan eu bod yn eu hystyried yn ddiangen neu'n aneglur. Roeddent hefyd yn gofyn am fwy o eglurder o ran rhai o’r termau a ddefnyddir yn y Rheoliadau (ee “aelod o’r cyhoedd”, “unigolyn”, a hefyd “pwnc penodol”) a chadarnhad i ba raddau y mae’r gwahanol dermau’n berthnasol i denant.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Newidiadau a wnaed i'r Rheoliadau drafft o ganlyniad i'r sylwadau a godwyd:

- Mae **safon 4 (gohebiaeth)** wedi ei diwygio i nodi bod gofyniad i ddarparu fersiwn Gymraeg o ohebiaeth i nifer o bersonau (a bod o leiaf un o’r rheini yn aelod o’r cyhoedd) oni bai bod pob un o'r personau hynny sy'n aelodau o'r cyhoedd yng Nghymru wedi rhoi gwybod i'r corff nad ydynt yn dymuno cael yr ohebiaeth honno yn Gymraeg. Golyga hynny na fydd yn ofynnol i gorff anfon fersiwn Gymraeg o ohebiaeth at nifer o bersonau os yw’n gwybod nad yw pob aelod o'r cyhoedd yng Nghymru sy'n derbyn yr ohebiaeth yn dymuno derbyn yr ohebiaeth honno yn Gymraeg.
- Mae **safonau 36 a 37 (ffurflenni a dogfennau)** bellach yn cynnwys cyfeiriad at ddogfennau. Bydd hyn yn galluogi LCCiaid i anfon dogfennau yn ogystal â ffurflenni at unigolion yn unol â'u dewis iaith.
- Mae **safonau sy'n ymwneud â gwefannau a gwasanaethau ar-lein** bellach yn cynnwys cyfeiriad at byrth. Mae hyn yn golygu bod safonau 40-47 hefyd yn gallu bod yn berthnasol i byrth, gan gynnwys pyrth ar y we a phyrth ar apiau (e.e. pyrth tenantiaid).
- Mae **safon 47 (cyfleuster sgwrsio byw)** yn safon ychwanegol sydd wedi'i chynnwys yn y Rheoliadau i gydnabod yr heriau y mae gwasanaeth uniongyrchol, byw yn eu cyflwyno ond mae hefyd yn sicrhau bod rhaid i LCC gynnig gwasanaeth Cymraeg drwy gyfleuster sgwrsio byw hyd nes nad oes aelod o staff ar gael sy'n gallu delio â'r mater penodol yn Gymraeg.
- Mae **safon 50 (cynnwys sain a fideo)** yn safon newydd a gyflwynwyd i roi eglurder ynghylch y gofynion ar gyfer unrhyw gynnwys sain neu fideo a gynhyrchir gan gorff.
- Mae **safon 62 (hunaniaeth gorfforaethol)** wedi ei rhannu yn ddwy safon (Safonau 64 a 65 bellach). Mae hyn er mwyn cydnabod nad oes gan rai cyrff sy’n ddarostyngedig i’r Rheoliadau ar hyn o bryd hunaniaeth gorfforaethol ‘Cymraeg’. Os yw'r Comisiynydd yn dewis gosod Safon 64 ar y cyrff hynny bydd angen iddynt sicrhau nad ydynt yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol pan fyddant yn llunio neu'n diwygio eu hunaniaeth gorfforaethol.

Sylwadau eraill:
Cafwyd sawl cais i sicrhau bod y safonau'n gymesur, yn hyblyg ac yn caniatáu dull gweithredu graddol. Rydym wedi gwneud rhai newidiadau i'r Rheoliadau tra bod eraill yn aros yr un fath. Er enghraifft, roeddem wedi ystyried a ellid mabwysiadu dull gweithredu haenog yn y Rheoliadau ar gyfer apiau. Fodd bynnag, roedd gennym bryderon ynghylch sut y byddai hyn yn gweithio'n ymarferol a phrofiad defnyddwyr gwasanaeth. Mae gan y Comisiynydd bwerau i osod amodau sy'n amlinellu o dan ba amgylchiadau y mae'n rhaid i gorff gydymffurfio â safon a phennu dyddiad gosod hwyrach.

Mae llawer o'r sylwadau a amlygwyd gan gyrff yn faterion sy'n ymwneud â rhesymoldeb a chymesuredd y safonau, sut y byddent yn berthnasol i gorff penodol, ac mewn amgylchiadau penodol. Credwn fod y materion hyn yn fwy priodol i'w trafod â’r Chomisiynydd fel rhan o'r broses o roi Hysbysiad Cydymffurfio, felly nid ydym yn bwriadu ymateb i bob ymholiad a godwyd yn yr ymatebion.

Nid oedd y Rheoliadau drafft oedd yn destun ymgynghoriad yn cynnwys safonau a oedd yn ymwneud â’r weithgaredd o ‘ddyfarnu contractau’. Credwn y dylai’r Rheoliadau ganolbwyntio ar gynnig gwasanaethau i brif ddefnyddwyr y cyrff a chynyddu’r cyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg ac, o’r herwydd, nid oes safonau ar gyfer dyfarnu contractau o fewn y Rheoliadau.

Nid ydym wedi gweithredu ar gynnig Cymdeithas yr Iaith i gynnwys safon newydd i ddefnyddio gwybodaeth ynglŷn â dewis iaith tenant i wneud pob ymdrech resymol i ddarparu gweithiwr i gynnal gwaith atgyweirio neu i wneud gwaith cynnal a chadw sy'n gallu siarad Cymraeg i denantiaid sydd wedi nodi Cymraeg fel dewis iaith. Rydym o'r farn y byddai'n anodd i LCCiaid weithredu'r safon a ddymunir yn ymarferol. Mae'r eithriad yn y Rheoliadau ar gyfer ymweliad i atgyweirio neu i wneud gwaith cynnal a chadw yn berthnasol i'r ymweliad ei hun yn unig. Golyga hyn y bydd safonau yn parhau i fod yn berthnasol i weithgareddau cysylltiedig (e.e. gohebiaeth neu alwadau ffôn yn trefnu ymweliad i atgyweirio neu i wneud gwaith cynnal a chadw).

Fe wnaethom ystyried yr opsiwn o gynnwys safonau sy'n ymwneud â llesiant. Fodd bynnag, ystyriwn y byddai ymdrechion LCCiaid yn canolbwyntio'n well ar wella eu gallu i gynnig gwasanaethau Cymraeg yn uniongyrchol heb fod angen gwasanaethau cyfieithu, drwy gynyddu eu gallu i ddelio â thenantiaid yn Gymraeg. Gellir cyflawni hyn drwy recriwtio wrth lenwi swyddi gwag, neu drwy fuddsoddi a gwella sgiliau Cymraeg staff presennol. Am y rheswm hwn, nid yw’r Rheoliadau’n cynnwys safonau penodol sy’n ymwneud â ‘llesiant’.

O ran cyrsiau, byddai hyfforddiant staff yn dod o dan safonau gweithredu yn hytrach na safonau sy'n ymwneud â chyrsiau (safonau 66-67) tra gallai hyfforddiant i wirfoddolwyr hefyd ddod o dan gwmpas safonau 66-67.

**Cwestiwn 2 – Mae Rhan 3 Atodlen 1 y Rheoliadau yn cynnwys dehongliadau mewn perthynas â rhai o'r safonau cyflenwi gwasanaethau. A oes gennych unrhyw sylwadau ar y ffordd y dehonglir y safonau yn Rhan 3?**

<u>Aelodau o’r cyhoedd</u>

Ni wnaeth 5 aelod o'r cyhoedd ymateb i'r cwestiwn hwn; darparodd 2 ymatebydd sylwadau ar y cwestiwn hwn.

Roedd 1 ymatebydd yn cwestiynu rheidrwydd a budd dehongliadau manwl o'r fath - roedd ganddynt bryderon y gallai, yn hytrach nag egluro, ychwanegu mwy o gymhlethdod a baich gweinyddol i LCCiaid.

Awgrymodd 1 ymatebydd ddileu neu ddiwygio rhai safonau sy'n ymwneud â chyfarfodydd, gwefannau a ffurflenni gan eu bod yn eu hystyried yn ddiangen neu'n aneglur. Roeddent hefyd yn gofyn am fwy o eglurder o ran rhai o’r termau a ddefnyddir yn y Rheoliadau drafft (e.e. “aelod o’r cyhoedd”, “unigolyn”, a hefyd “pwnc penodol”)

LCCiaid

Cyflwynodd 13 o LCCiaid sylwadau mewn ymateb i'r cwestiwn hwn yn benodol; naill ai nid oedd gan 5 LCCiaid unrhyw sylwadau neu roeddent wedi cyfeirio at eu sylwadau mewn ymateb i gwestiwn 1. Cyfeiriodd 1 LCC at ymateb CCC.

Ceisiodd nifer o LCCiaid fwy o eglurder a chanllawiau ymarferol ar ddehongli’r safonau, yn enwedig o ran diffiniadau o dermau fel “peiriannau hunanwasanaeth”, “argyfwng”, ac “aelodau o’r cyhoedd”. Mynegodd rhai LCCiaid bryderon ynghylch cwmpas y safonau mewn perthynas â negeseuon testun, gwasanaethau trydydd parti, a pherthnasedd y gofynion i ddogfennau a ffurflenni nad ydynt yn cael eu llunio gan y LCCiaid.  Roedd galwadau hefyd am eithriadau neu ganllawiau cliriach ynghylch ymweliadau cartref, cyfarfodydd ar-lein a'r cyfryngau cymdeithasol. Mynegodd 2 LCCiaid bryder ynghylch goblygiadau ehangach y safonau o ran dosbarthiad y sector a’r baich rheoleiddio. Ar ben hynny, gofynnodd 2 LCCiaid am eglurhad ynghylch sut mae'r safonau'n berthnasol i dderbynfeydd ac arwyddion mewn lleoliadau byw â chymorth a rennir a Gofal Ychwanegol.

Rhanddeiliaid polisi tai

Cyflwynodd 2 ymatebydd sylwadau a oedd yn berthnasol i'r cwestiwn hwn.

Roedd ymateb CCC yn galw am ddiffiniadau cliriach o dermau fel “unigolion”, “aelodau o’r cyhoedd” ac “argyfwng”. Gofynnodd CCC hefyd am arweiniad ar gymhwysedd safonau i negeseuon testun a chyfarfodydd ar-lein, gan awgrymu y gallai offer cyfieithu awtomataidd olygu nad yw'n gymesur nac yn angenrheidiol cymhwyso'r safonau ar gyfer sefyllfaoedd ar-lein. Argymhellodd CCC hefyd y dylai safonau 35 i 39 (dogfennau a ffurflenni) yn y Rheoliadau drafft oedd yn destun ymgynghoriad fod yn berthnasol i ffurflenni a dogfennau a lunnir gan LCCiaid yn unig, a chynigiodd y dylid derbyn bod cyfieithiadau a gynhyrchir gan ddeallusrwydd artiffisial, pan sicrheir eu hansawdd, yn cydymffurfio i leihau'r baich gweithredol.

Roedd TPAS Cymru o'r farn bod yr eithriadau i ymweliadau i atgyweirio ac i wneud gwaith cynnal a chadw ac mewn sefyllfaoedd lle mae risg bosibl i fywyd, yn rhesymol.

Rhanddeiliaid polisi’r Gymraeg

Nid oedd gan Dyfodol i’r Iaith unrhyw sylwadau ynglŷn â’r cwestiwn hwn.

Croesawodd y Comisiynydd bod y Rheoliadau yn egluro pa safonau ddylai fod yn berthnasol i ddogfennau ar ffurf HTML ac awgrymodd y gallai fod lle hefyd i egluro'n well o fewn yr adran ddehongli ynglŷn â ffurflenni rhyngweithiol yn ogystal â gwahaniaethu'n well rhwng cyrsiau, digwyddiadau cyhoeddus a chyfarfodydd cyhoeddus.

Derbyniodd Cymdeithas yr Iaith yr angen am eithriad ar gyfer argyfwng, ond pwysleisiodd mai dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y dylai fod yn berthnasol. Nid oeddent yn cytuno â rhai o'r eithriadau ar gyfer sgwrsio byw, cyfryngau cymdeithasol, dolenni i ddogfennau, a chlipiau sain a fideo.

Awdurdodau Lleol

Ymatebodd 4 Awdurdod Lleol  i'r cwestiwn hwn.

Dywedodd 1 awdurdod lleol fod y dehongliadau'n briodol ac yn ddefnyddiol ar y cyfan.

Roedd 3 ymateb yn debyg yn gyffredinol, gan nodi bod paragraff 3.2 y ddogfen ymgynghori yn gwrthdaro ag Atodlen 1, Rhan 3, Paragraff 28 (safonau 23-24CH) sy'n darparu eithriad ar gyfer ymweliadau i atgyweirio neu i wneud gwaith cynnal a chadw ac yn gofyn am ddiffiniad o ddeunydd hysbysebu ar apiau, gan gynnwys pryd y mae'n rhaid iddo fod yn ddwyieithog. Pwysleisiodd pob un o'r 4 ymatebydd yr angen am eglurder ynghylch pryd y dylai safonau fod yn berthnasol ac i bwy, yn enwedig mewn perthynas â thrydydd partïon.

Arall (Anhysbys)

Nododd 1 ymatebydd y gall argraffu ac anfon llawer iawn o waith papur fod yn wastraffus os nad oes galw am fersiwn Gymraeg. Nid oedd yn ymddangos bod hyn yn uniongyrchol berthnasol i'r cwestiwn hwn. Cyfeiriodd ymatebydd arall at ei ymateb i gwestiwn 1.

| |
|---|
| Ymateb Llywodraeth Cymru:<br><br>Newidiadau a wnaed i'r Rheoliadau o ganlyniad i'r sylwadau a godwyd:<br><br>• Mae **Paragraff 35, Rhan 3 y safonau cyflenwi gwasanaethau** yn egluro bod safonau sy'n ymwneud â ffurflenni hefyd yn cynnwys ffurflenni rhyngweithiol.<br>• Mae **Paragraffau 37, 40, 42 Rhan 3 y safonau cyflenwi gwasanaethau** yn cadarnhau nad yw'r safonau sy'n ymwneud â gwefannau, y cyfryngau cymdeithasol, a chyfleusterau sgwrsio byw yn berthnasol i ddogfennau a ffurflenni. Mae hyn er mwyn egluro bod safonau eraill yn berthnasol i ffurflenni a dogfennau.<br>• Rhai **newidiadau technegol**.<br><br>Sylwadau eraill:<br>Mae Rhan 3 Atodlen 1 y Rheoliadau yn darparu dehongliadau ar gyfer safonau penodol, sy'n gallu cynnwys diffiniad o derm penodol neu sy'n nodi amgylchiadau pan fo safonau penodol yn berthnasol neu nad ydynt yn berthnasol, er enghraifft. Ni fwriedir i'r adran ddehongli fod yn rhestr gynhwysfawr. Os bernir bod hynny'n angenrheidiol, gall y Comisiynydd ddewis paratoi Cod Ymarfer a fydd yn rhoi cyngor pellach ynglŷn â chymhwyso safonau'n ymarferol.<br><br>Roedd llawer o'r sylwadau'n ymwneud â cheisiadau am eglurhad ynghylch safonau neu dermau penodol a ddefnyddir yn y Rheoliadau drafft. Mae'r |

Rheoliadau'n diffinio "unigolyn" fel "person naturiol sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ac yn gweithredu yn ei enw ei hun; ond nid yw'n cynnwys unigolyn sy'n gweithredu yn rhinwedd ei swydd fel gwirfoddolwr." Rydym yn ystyried bod LCCiaid yn ymgysylltu'n bennaf â phobl sy'n dod o fewn y diffiniad o "unigolyn". Bwriedir i "unigolyn" gynnwys deiliaid contract presennol a darpar ddeiliaid contract, preswylwyr a defnyddwyr gwasanaeth. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gall LCCiaid hefyd ymgysylltu ag aelodau eraill o'r cyhoedd a'r rheini nad ydynt yn dod o fewn y diffiniad o "unigolyn", fel grwpiau cymunedol. Rydym yn ystyried bod "aelod o'r cyhoedd" hefyd yn cynnwys "unigolyn".

Yn gyffredinol, ni fwriedir i'r safonau ymestyn i ymwneud LCCiaid ag awdurdodau cyhoeddus (e.e. Awdurdod Lleol neu Fwrdd Iechyd), oni bai bod yr ymwneud hynny hefyd yn cynnwys aelod o'r cyhoedd. Er enghraifft, ni fydd y safonau'n berthnasol pan fydd LCCiaid yn gohebu neu'n cwrdd ag awdurdod cyhoeddus yn unig (e.e. Awdurdod Lleol).

Nid yw'r Rheoliadau yn eithrio safonau gohebu yn benodol rhag bod yn berthnasol i negeseuon e-bost a negeseuon testun. Yn yr un modd, nid yw'r Rheoliadau yn eithrio'r safonau rhag bod yn berthnasol i gyfarfodydd ar-lein. Bydd cyfle i LCCiaid drafod unrhyw bryderon penodol gyda'r Comisiynydd yn ystod y broses o roi Hysbysiad Cydymffurfio.

Ni fwriedir i safonau sy'n ymwneud â gohebiaeth fod yn berthnasol i'r cyfryngau cymdeithasol gan fod safonau penodol ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol (safonau 48-49) o fewn y Rheoliadau. Mae'r eithriad wedi'i gynnwys i roi eglurder ynghylch pa safonau sy'n berthnasol.

Mae Rhan 3 y safonau cyflenwi gwasanaethau yn nodi nad oes rhaid i gorff gyfieithu testun a lunnir gan eraill (e.e. trydydd parti). Fodd bynnag, os yw'r testun yn cael ei lunio gan drydydd parti **ar ran** y LCC yna byddai'r safonau perthnasol yn parhau i fod yn gymwys. Er enghraifft, os yw corff yn comisiynu trydydd parti i baratoi taflen wybodaeth ar ei ran, yna byddai'r safonau perthnasol yn gymwys.

Nodwn y galwadau am fwy o eglurder ynghylch yr eithriad argyfwng. Nid ydym yn ystyried bod angen diwygio'r dehongliad yn y Rheoliadau. Fodd bynnag, rydym am egluro mai'r bwriad yw i'r eithriad o ran argyfwng fod yn berthnasol pan fydd risg o niwed uniongyrchol i fywyd neu eiddo (e.e. risg o farwolaeth neu bryderon diogelu difrifol).

Rydym yn cydnabod y cyfleoedd posibl sy'n gysylltiedig â defnyddio deallusrwydd artiffisial. Ystyriwn mai mater i'r Comisiynydd yw cynghori cyrff ynghylch a yw defnyddio deallusrwydd artiffisial yn cael ei dderbyn fel ffurf i gydymffurfio, ac i ba raddau. Rydym yn ymwybodol bod y Comisiynydd wedi cyhoeddi datganiad polisi yn ddiweddar ynghylch deallusrwydd artiffisial a'r Gymraeg a allai fod o ddiddordeb i gyrff: https://www.comisiynyddygymraeg.cymru/media/h5zb0ncl/20250722-datganiad-polisi-rheoleiddiol-deallusrwydd-artiffisial-ar-gymraeg.pdf.

Cafodd y diffiniad canlynol o "leoliadau gwasanaeth" ei gynnwys yn y rheoliadau drafft: *"(c)mae "lleoliadau gwasanaeth" yn cynnwys canolfannau cyngor, canolfannau cymunedol a chanolfannau galw heibio."* Ni fwriedir i'r rhestr hon fod

yn gynhwysfawr. O ystyried natur amrywiol y cyrff hyn, byddai'n amhosibl cynnwys rhestr lawn o leoliadau gwasanaeth.

**Cwestiwn 3 – A oes gennych unrhyw sylwadau ar y safonau llunio polisi a gynigir yn y rheoliadau drafft ar gyfer LCCiaid?**

Aelodau o'r cyhoedd

Ni wnaeth 5 aelod o'r cyhoedd ymateb i'r cwestiwn hwn; cyflwynodd 2 aelod o'r cyhoedd sylwadau.

Mynegodd 1 ymatebydd bryder y byddai'r safonau llunio polisi arfaethedig yn cyflwyno biwrocratiaeth ddiangen i LCCiaid a dadleuodd y dylai'r sylw fod ar ganlyniadau ymarferol yn hytrach na rhwymedigaethau gweithdrefnol.

Awgrymodd ail ymatebydd y dylai'r adran sy'n dehongli "penderfyniad polisi" fod yn fwy defnyddiol i gyrff drwy gynnwys enghreifftiau mwy ymarferol a pherthnasol.

LCCiaid

Darparodd 16 o ymatebwyr sylwadau penodol i'r cwestiwn hwn; ni chyflwynodd 2 unrhyw sylwadau penodol a chyfeiriodd 1 LCC at ymateb CCC.

Nododd 14 LCCiaid bryderon am safon 72 o fewn y Rheoliadau drafft oedd yn destun ymgynghoriad. Dadleuodd LCCiaid fod gwneud y Gymraeg yn ffactor sy'n penderfynu wrth ddyfarnu grantiau yn anghymesur ac y gallai roi unigolion sy'n agored i niwed dan anfantais a gwrthdaro â diben cronfeydd caledi. Galwodd llawer am eithriad penodol ar gyfer grantiau ar sail angen ariannol yn unig. Roedd sylwadau eraill yn cynnwys pryderon ynghylch cymhwyso'r safonau hyn i grantiau cymunedol, ac yn gofyn am eglurder ynghylch diffiniadau o "ymgynghoriad" ac "ymchwil". Nododd 1 LCC bryderon ynghylch ymarferoldeb cymhwyso safonau llunio polisi ar draws nifer o bolisïau mewnol. Awgrymodd 1 LCC hefyd fod lle i symleiddio a chyfuno safonau. O ran safonau 66-71 o fewn y Rheoliadau drafft oedd yn destun ymgynghoriad, gofynnodd 1 LCC i asesiad effaith cychwynnol ar y polisïau perthnasol fod yn ddigonol yn y lle cyntaf.

Rhanddeiliaid polisi tai

Ni wnaeth 2 o ymatebwyr gyflwyno sylwadau penodol i'r cwestiwn hwn.

Nododd CCC y byddai'r safonau hyn yn cael eu cymhwyso i benderfyniadau strategol ac i ddatblygu cynlluniau strategol, ymchwil ac ymgynghori, ond gofynnodd am eglurder ynghylch y diffiniadau o "ymgynghori" ac "ymchwil", yn enwedig mewn perthynas ag ymgysylltu anffurfiol. Maent yn awgrymu na ddylai'r dehongliad o "benderfyniad polisi" gynnwys "cynnwys deddfwriaeth" gan nad yw'n berthnasol i LCCiaid.

Mynegodd CCC bryderon tebyg i LCCiaid ynghylch safon 72 o fewn y Rheoliadau drafft oedd yn destun ymgynghoriad, a chanlyniadau anfwriadol cymhwyso'r safon hon i grantiau caledi a budd cymunedol. Roeddent yn dadlau y gallai gwneud y Gymraeg yn ffactor sy'n penderfynu wrth ddyfarnu grantiau arwain at ganlyniadau

anghyfartal, a chosbi unigolion sy’n agored i niwed drwy gyflwyno meini prawf nad yw’n gysylltiedig â'u hangen ariannol neu arwain at ganlyniad anghymesur lle mae siaradwyr Cymraeg yn cael ffafriaeth dros bobl eraill a allai fod angen mwy o gymorth. Roeddent yn argymell bod y Rheoliadau'n rhoi mwy o eglurder ac yn cynnwys eithriad penodol ar gyfer grantiau a ddyfernir ar sail caledi amlwg.

Rhanddeiliaid polisi’r Gymraeg

Croesawodd Dyfodol i’r Iaith y safonau hyn heb sylw pellach.

Ni chyflwynodd Cymdeithas yr Iaith unrhyw sylwadau penodol yn ymwneud â'r safonau llunio polisi.

Awgrymodd y Comisiynydd y gellid symleiddio'r safonau er mwyn gwella eglurder ynghylch y gofynion gan nodi bod geiriad safonau 66-68 o fewn y Rheoliadau drafft oedd yn destun ymgynghoriad yn awgrymu eu bod ond yn berthnasol pan fo polisi'n cael ei lunio yn hytrach na phan fo corff yn gwneud neu'n dod i benderfyniad polisi. Nodwyd hefyd bod yr adran ddehongli yn diffinio “penderfyniad polisi” yn unig.

Awdurdodau Lleol

Ymatebodd 4 awdurdod lleol i'r cwestiwn hwn; roedd 3 ymateb bron yn union yr un fath.

Roedd yr ymatebion yn cefnogi'r safonau llunio polisi, gan nodi bod safonau o'r fath yn hanfodol ar gyfer gwreiddio'r Gymraeg yn y broses o wneud penderfyniadau strategol. Tynnwyd sylw at y defnydd o dempledi asesu effaith gan awdurdodau lleol i helpu i liniaru effeithiau negyddol a sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hystyried ar bob cam o'r gwaith o ddatblygu polisi.

Roedd 1 awdurdod lleol yn croesawu'r safonau arfaethedig ac yn cefnogi’r broses o ffurfioli dyletswyddau iaith Gymraeg ar gyfer LCCiaid i sicrhau cysondeb ar draws sectorau a chryfhau amlygrwydd a defnydd o'r Gymraeg mewn gwasanaethau bob dydd.

Arall (Anhysbys)

Cyflwynodd 2 ymatebydd sylwadau i’r cwestiwn hwn.

Argymhellodd 1 ymatebydd y dylid rhoi enghreifftiau o “benderfyniadau polisi” yn adran ddehongli’r Rheoliadau, fel: rhaid i LCCiaid asesu effaith penderfyniadau sy'n ymwneud â lleoliad a maint datblygiadau newydd, yn ogystal â lleoli tenantiaid mewn ardaloedd penodol, yn enwedig lle gallai penderfyniadau o'r fath effeithio ar ddefnydd a hyfywedd y Gymraeg mewn cymuned.

Mynegodd ymatebydd arall bryder ynghylch tegwch, gan awgrymu, er y dylai staff gael eu cofrestru ar gyfer hyfforddiant y Gymraeg, y dylid trin ieithoedd eraill yn gyfartal.

| Ymateb Llywodraeth Cymru: |
| --- |
| Newidiadau a wnaed i'r Rheoliadau o ganlyniad i'r sylwadau a godwyd: |

- Mae **Paragraff 2(a), Rhan 2 o'r safonau llunio polisi** wedi ei ddiwygio i gynnwys enghraifft fwy perthnasol o benderfyniad polisi.

Sylwadau eraill:
Nid ydym yn ystyried bod safon 72 o fewn y Rheoliadau drafft oedd yn destun ymgynghoriad (safon 75 bellach) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Gymraeg fod yn ffactor sy'n penderfynu dyfarnu grantiau. Mae'r safon yn ei gwneud yn ofynnol i gorff lunio a chyhoeddi neu ddiwygio polisi sydd eisoes yn bodoli ar ddyfarnu grantiau a'i fwriad yw sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg a sicrhau bod mwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys ystyried a oes cyfleoedd i gynyddu'r effeithiau positif a lleihau'r effeithiau andwyol. Yn achos grantiau caledi, byddem yn disgwyl i'r Gymraeg fod yn ffactor sy'n cael ei hystyried ond nid o reidrwydd yn ffactor sy'n penderfynu.

Ystyriwyd a oedd lle i symleiddio'r safonau hyn. Fodd bynnag, daethom i'r casgliad y byddai cyfuno safonau yn arwain at safonau hirach. Ystyriwyd y gallai llai o safonau, ond safonau hirach, greu mwy o ddryswch yn hytrach nag eglurhad.

Nid ydym yn ystyried bod angen diwygio geiriad safonau 66-68 o fewn y Rheoliadau drafft oedd yn destun ymgynghoriad (safonau 69-71 bellach).

**Cwestiwn 4 – A oes gennych unrhyw sylwadau ar y safonau gweithredu a gynigir yn y rheoliadau drafft ar gyfer LCCiaid?**

Aelodau o'r cyhoedd

Ni wnaeth 5 aelod o'r cyhoedd ymateb i'r cwestiwn hwn; cyflwynodd 2 ymatebydd sylwadau i'r cwestiwn hwn.

Mynegodd 1 ymatebydd bryderon bod y safonau gweithredu arfaethedig yn ychwanegu beichiau rheoleiddio diangen ar LCCiaid, gan wyro adnoddau o bosibl oddi wrth flaenoriaethau craidd fel diwallu'r galw am dai a chefnogi tenantiaid sy'n agored i niwed. Er eu bod yn cydnabod pwysigrwydd hyrwyddo'r Gymraeg, roeddent yn dadlau na ddylai hyn beryglu effeithlonrwydd gweithredol, yn enwedig yn ystod argyfwng costau byw.

Awgrymodd ymatebydd arall ddisodli'r term "cyflogai" gydag "aelod o staff" yn safon 78 a chryfhau safon 101 o fewn y Rheoliadau oedd yn destun ymgynghoriad i'w gwneud yn ofynnol i staff sy'n cynnig gwasanaethau wyneb yn wyneb wisgo bathodyn.

LCCiaid

Darparodd 18 o LCCiaid sylwadau a oedd yn berthnasol i'r cwestiwn hwn; cyfeiriodd 1 LCC at ymateb CCC. Cyflwynodd 14 o LCCiaid sylwadau cyffredinol; tra bod eraill wedi cyflwyno sylwadau cyffredinol a / neu ar gyfer safonol penodol.

Roedd sylwadau cyffredinol yn dangos cefnogaeth eang i amcanion y safonau gweithredu arfaethedig i hybu'r Gymraeg. Fodd bynnag, mynegodd rhai bryderon am yr heriau ymarferol o weithredu, yn enwedig o ran capasiti'r gweithlu, recriwtio a

hyfforddiant. Tynnodd nifer o LCCiaid sylw at yr anhawster o recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg a'r amser a'r adnoddau sylweddol sydd eu hangen i uwchsgilio staff presennol. Roedd galwadau am hyblygrwydd wrth gymhwyso'r safonau, yn enwedig mewn ardaloedd lle mae'r galw am y Gymraeg yn isel, ac am amserlenni gweithredu realistig. Pwysleisiodd rhai ymatebwyr na all offer a meddalwedd cyfieithu, er eu bod yn ddefnyddiol, gymryd lle hyfedredd gwirioneddol mewn iaith. Roedd goblygiadau ariannol yn thema a gododd dro ar ôl tro, gyda phryderon am gost hyfforddiant, gwasanaethau cyfieithu, ac uwchraddio systemau. Gofynnodd rhai LCCiaid am gymorth gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys cyllid ar gyfer hyfforddiant, canllawiau ar ddefnyddio technoleg, ac eglurder ar ddiffiniadau a disgwyliadau o fewn y safonau.

Codwyd pryderon hefyd ynglŷn â safonau’n ymwneud â gweithdrefnau cwyno a disgyblu, yn benodol ynghylch defnyddio cyfieithwyr allanol ar gyfer materion sensitif yn ymwneud ag Adnoddau Dynol, gwrthdaro â therfynau amser rheoleiddiol eraill (e.e. Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Deddf Rhyddid Gwybodaeth) a risgiau o gamddefnydd neu oedi. Ar gyfer safonau TG a mewnrwyd, cyfeiriodd rhai LCCiaid at rwystrau technegol ac ariannol rhag cyflawni swyddogaethau dwyieithog a gofynnwyd am ganllawiau ar offer deallusrwydd artiffisial a phlatfformau cyfathrebu modern. O ran hyfforddiant ar gyfer y gweithlu, roedd LCCiaid yn cefnogi'r egwyddor ond yn tynnu sylw at faterion yn ymwneud â hyder dysgwyr, cost a tharfu ar wasanaethau, gan alw am hyfforddiant wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru a chanllawiau cliriach. Roedd safonau recriwtio hefyd yn destun pryder, gyda LCCiaid yn tynnu sylw at risgiau o wahaniaethu anuniongyrchol, cyfyngiadau ar systemau, ac oedi wrth gyfieithu.

<u>Rhanddeiliaid tai</u>

Cyflwynodd 2 ymatebydd sylwadau a oedd yn berthnasol i'r cwestiwn hwn.

Dywedodd CCC y byddai gweithredu'r safonau gweithredu arfaethedig yn gofyn am newidiadau sylweddol i swyddogaethau a gwasanaethau busnes LCCiaid, gyda goblygiadau ariannol ac adnoddau sylweddol. Roedd y prif bryderon yn cynnwys costau cyfieithu polisïau Adnoddau Dynol a chynnwys mewnrwyd, datblygu modiwlau hyfforddi Cymraeg, a'r capasiti mewnol cyfyngedig, yn enwedig o fewn timau Adnoddau Dynol a Dysgu a Datblygu, i ddarparu'r gwasanaethau hyn heb gymorth allanol. Nododd CCC heriau o ran cyflawni'r hyfedredd gofynnol yn y Gymraeg ar draws y gweithlu, ynghyd â recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg, ac uwchsgilio staff presennol. Pwysleisiodd CCC yr angen am gymorth wedi'i dargedu gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys hyfforddiant hygyrch am ddim, a galwodd am ddull gweithredu hyblyg, a graddol er mwyn osgoi cael effaith negyddol ar wasanaethau craidd.

Gofynnodd CCC am hyblygrwydd i allu cyfieithu polisïau staff dim ond pan fyddant yn cael eu ffurfio neu eu diwygio. Mynegodd CCC hefyd bryderon ynghylch sut byddai’r safonau arfaethedig yn cyd-fynd â gofynion rheoleiddio eraill, gan nodi gwrthdaro ac oedi posibl mewn meysydd allweddol fel rheoli cwynion (gan effeithio ar amseroedd ymateb Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru), iechyd a diogelwch (ymchwiliadau i ddigwyddiadau), llywodraethiant corfforaethol, a diogelu

data (amseroedd ymateb Cais am Fynediad at Ddata gan y Testun a chydymffurfio â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth). Pwysleisiodd CCC yr angen am eglurder ynghylch rheoli achosion o orgyffwrdd a phenderfynu pa ofynion corff rheoleiddio sy'n cael blaenoriaeth.

Gofynnodd CCC hefyd am eglurhad ynghylch a allai asesu'r angen am sgiliau Cymraeg mewn swyddi newydd neu wag fel rhai hanfodol fod yn wahaniaethu anuniongyrchol, ac a ellid cyfiawnhau gofyniad o'r fath o dan Atodlen 9, paragraff 1 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 fel gofyniad galwedigaethol dilys.

Nododd Tai Pawb y gallai fod goblygiadau o ran recriwtio, cadw a dilyniant staff a allai achosi pwysau ychwanegol, gan nodi ei bod yn bwysig bod disgwyliadau'n gymesur â rôl a chyd-destun gweithredol cyrff. Pwysleisiodd Tai Pawb y dylai hyfforddiant a datblygiad ddigwydd yn ystod oriau gwaith heb unrhyw gost i staff, gan nodi y dylai datblygiad iaith flaenoriaethu meithrin hyder yn ogystal â chymhwysedd. Roeddent hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd osgoi hierarchaethau iaith newydd a sicrhau arferion cynhwysol (e.e. darparu ar gyfer gwahanol arddulliau dysgu ac anghenion hygyrchedd) sy'n cefnogi cyfranogiad cyfartal yn y gweithlu a dilyniant gyrfa i unigolion o bob cefndir.

Rhanddeiliaid polisi'r Gymraeg

Croesawodd Dyfodol i'r Iaith y safonau heb unrhyw sylw pellach.

Nododd y Comisiynydd bod eu gwaith rheoleiddio wedi dangos bod dryswch ac anghysondeb yn parhau yn y modd y mae sefydliadau yn mynd ati i adnabod y sgiliau Cymraeg sydd eu hangen wrth recriwtio. Nodwyd eu bod yn ymwybodol o'r ddarpariaeth o fewn Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 i gynnal adolygiad o safonau yn ymwneud ag asesu a gwella sgiliau Cymraeg y gweithlu gan ystyried y byddai'n ddefnyddiol cyfeirio at yr adolygiad o fewn y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau.

Nododd Cymdeithas yr Iaith y dylai'r Rheoliadau gynnwys safonau yn ymwneud ag arwyddion mewnol ac argymhellwyd safonau gweithredu newydd sy'n ei gwneud yn ofynnol i LCCiaid baratoi Strategaeth Pum Mlynedd, i'w hadolygu a'i diweddaru bob pum mlynedd, gan amlinellu sut y byddant yn cynyddu defnydd mewnol o'r Gymraeg ac i adrodd ar y cynnydd a wnaed yn ystod y cyfnod pum mlynedd flaenorol. Cynigwyd geiriad drafft ar gyfer y safonau y gofynnwyd amdanynt.

Awdurdodau Lleol

Ymatebodd 4 awdurdod lleol i'r cwestiwn hwn; roedd pob ymateb yn debyg yn gyffredinol.

Nodwyd y dylai safonau gweithredu adlewyrchu cyflenwi gwasanaethau yn ymarferol. Awgrymwyd y dylai LCCiaid fabwysiadu dulliau tebyg i awdurdodau lleol sydd â phrofiad o wreiddio cyfrifoldebau'r Gymraeg, drwy ddefnyddio arferion da presennol. Argymhellwyd cyfleoedd hefyd i rannu hyfforddiant a chydweithio ag awdurdodau lleol ar recriwtio a rhannu gwasanaethau.

Dywedodd 1 awdurdod lleol y gallai fod goblygiadau cost posibl a newidiadau sydd eu hangen i weithdrefnau LCCiaid, gan awgrymu y dylid eu mabwysiadu'n raddol i sicrhau y gellir cyflawni manteision arfaethedig y Rheoliadau.

Arall (Anhysbys)

Cyflwynodd 2 ymatebydd ‘arall’ sylwadau i’r cwestiwn hwn.

Cynigiodd 1 ymatebydd gyflwyno safon yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau gasglu a chofnodi sgiliau Cymraeg tenantiaid er mwyn galluogi LCCiaid i asesu’r effaith ieithyddol ar hyfywedd y Gymraeg mewn ardal a galluogi penderfyniadau gwybodus yn y dyfodol (e.e. megis lleoli tenantiaid neu ddatblygu ystâd newydd) a allai gyfrannu’n gadarnhaol at gynnal a chryfhau’r Gymraeg yn y gymuned.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Newidiadau a wnaed i'r Rheoliadau o ganlyniad i'r sylwadau a godwyd:

- Mae **safon 82 (polisïau mewnol)** wedi ei diwygio fel bod y gofyniad i gyhoeddi fersiwn Gymraeg o bolisi yn berthnasol pan gaiff ei chreu neu ei diwygio.
- Mae **pharagraff 11, Rhan 3 y safonau gweithredu** yn cadarnhau nad yw'r safonau ynghylch mewnrwyd yn berthnasol i ffurflenni. Mae hyn er mwyn egluro bod safonau eraill yn berthnasol i ffurflenni.
- Mae **paragraff 13, Rhan 3 y safonau gweithredu** yn cadarnhau bod cyfeiriad at “ffurflenni” yn safonau 81, 106A, 107 a 108 yn cynnwys ffurflenni rhyngweithiol.

Sylwadau eraill:
Nid yw'r Rheoliadau yn cynnwys safonau sy'n ymwneud ag arwyddion mewnol. Mae'n rhesymol credu y byddai'r gofynion o ran arwyddion o dan y safonau cyflenwi gwasanaethau yn cynnwys y rhan fwyaf o arwyddion o fewn gweithleoedd, ac na fyddai fawr o fudd mewn gosod safonau gweithredu ar wahân.

O ran hyfforddiant y Gymraeg, mae gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol gynllun Cymraeg Gwaith sy’n cynnig hyfforddiant amrywiol a hyblyg i gryfhau sgiliau Cymraeg yn y gweithle. Mae cyrsiau wedi'u teilwra ar gyfer gweithleoedd ar gael i alluogi gweithwyr i ddysgu Cymraeg neu wella eu sgiliau Cymraeg presennol. Mae cyrsiau blasu ar-lein penodol i LCC eisoes ar gael. Mae'r ddarpariaeth hon ar gael yn rhad ac am ddim ac mae'n caniatáu i'r cyflogeion ddysgu Cymraeg neu wella eu sgiliau Cymraeg. Mae'r cynnig hefyd yn gwella gallu cyrff i gynnig gwasanaethau i'w defnyddwyr yn Gymraeg.

Nid ydym wedi bwrw ymlaen â chynigion ar gyfer safonau gweithredu newydd. Mae Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i adolygu safonau a bennir o dan adran 26 y Mesur. Pwrpas yr adolygiad fydd penderfynu a oes angen diwygio unrhyw un o'r safonau sy'n ymwneud â gwella neu asesu sgiliau Cymraeg y gweithlu i adlewyrchu’r Cod i ddisgrifio gallu yn y Gymraeg a hwyluso cyflawni targedau a osodir mewn Strategaeth Iaith Gymraeg ddiwygiedig. Rydym hefyd wedi nodi yn ein hymateb i’r

adroddiad “Grymuso Cymunedau, Cryfhau’r Gymraeg” ein bod yn bwriadu ystyried argymhelliad sy’n galw ar gyrff cyhoeddus penodol sy’n dod o dan safonau i ddatgan beth yw eu defnydd o’r Gymraeg yn fewnol, a’r camau y byddant yn eu cymryd i symud ar hyd continwwm ieithyddol wrth gynnal yr adolygiad sy’n ofynnol o dan y Ddeddf. Ystyriwn y byddai'n gynamserol diwygio neu ychwanegu unrhyw safonau perthnasol cyn cynnal yr adolygiad o'r safonau.

Nid ydym chwaith wedi bwrw ymlaen â’r cynnig i gyflwyno safon weithredu newydd sy’n ei gwneud yn ofynnol i LCCiaid gasglu a chofnodi sgiliau iaith Gymraeg tenantiaid i’w galluogi i asesu’r effaith ieithyddol ar hyfywedd y Gymraeg yn yr ardal. Er ein bod yn gwerthfawrogi pwysigrwydd casglu data am ddewis iaith, nid ydym yn ystyried y dylai fod gofyniad i gofnodi sgiliau iaith tenantiaid.

Mae'n ofynnol hefyd i gyrff eraill (e.e. Awdurdodau Lleol) gydymffurfio â gofynion rheoleiddio eraill (e.e. Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a hefyd Ceisiadau am Fynediad at Ddata gan y Testun). Mae'r safonau hyn yn ymwneud â gwasanaethau a ddarperir i staff. Rydym yn ystyried y byddai’n well ymdrin â materion gweithredu a sylwadau ynghylch rhesymoldeb a chymesuredd y safonau a godwyd gan gyrff wrth drafod gyda'r Comisiynydd fel rhan o'r broses o roi Hysbysiad Cydymffurfio.

**Cwestiwn 5 – A oes es gennych unrhyw sylwadau ar y safonau cadw cofnodion a’r safonau sy’n ymdrin â materion atodol a gynigir yn y rheoliadau drafft ar gyfer LCCiaid?**

Aelodau o’r cyhoedd

Ni wnaeth 6 aelod o'r cyhoedd gyflwyno unrhyw sylwadau i'r cwestiwn hwn.

Mynegodd 1 aelod o'r cyhoedd bryder y byddai'r safonau arfaethedig yn cynyddu'r beichiau gweinyddol ar LCCiaid heb fanteision clir i denantiaid a'r cyhoedd yn ehangach. Awgrymwyd y byddai’n well gwario adnoddau ar wella’r stoc dai, lleihau rhestrau aros, a chefnogi’r rhai hynny sy’n wynebu anawsterau ariannol. Nodwyd y gall costau posibl sy’n gysylltiedig â systemau newydd a hyfforddi staff ddargyfeirio arian o flaenoriaethau pwysicach.

LCCiaid

Nododd 11 o LCCiaid eu bod naill ai’n croesawu’r safonau hyn neu nad oedd ganddynt bryderon penodol yn eu cylch; cyfeiriodd 1 o’r LCCiaid at ymateb CCC.

Cyflwynodd 6 LCCiaid sylwadau penodol ar y cwestiwn hwn.

Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr yn croesawu bwriad y safonau hyn ond yn nodi pryderon ynghylch y baich gweinyddol, cyfyngiadau system, a'r goblygiadau o ran adnoddau. Roedd galwadau am weithredu graddol, eglurder ynghylch safon 111 yn y Rheoliadau drafft oedd yn destun ymgynghoriad, gan gynnwys canllawiau gan y Comisiynydd ar adroddiadau blynyddol.

O ran cwynion ac adrodd, roedd 2 LCCiaid yn eiriol dros brosesau symlach, fel rheoli cwynion am y Gymraeg o dan un polisi ac integreiddio adrodd am y Gymraeg mewn fframweithiau rheoleiddio presennol er mwyn osgoi dyblygu.

Cododd 1 LCC faterion ymarferol hefyd ynghylch arolygu hyfedredd Cymraeg staff ac awgrymodd adrodd am rolau lle mae'r Gymraeg yn hanfodol wrth iddynt godi.

Rhanddeiliaid polisi tai

Ni wnaeth 2 o ymatebwyr gyflwyno sylwadau penodol i'r cwestiwn hwn.

Nododd CCC, er y gellir integreiddio rhywfaint o gadw cofnodion i systemau presennol LCC, y byddai angen prosesau a systemau newydd. Roeddent hefyd o'r farn y byddai costau cyfieithu sylweddol yn gysylltiedig ag addasu polisïau a gweithdrefnau.

Gwnaed awgrym cyffredinol gan Tai Pawb y dylid cynllunio strwythurau casglu data ac adrodd i adnabod gwahaniaethau mewn canlyniadau a thynnu sylw at feysydd sydd angen cymorth ychwanegol.

Rhanddeiliaid polisi'r Gymraeg

Croesawodd Dyfodol i'r Iaith y safonau heb unrhyw sylw pellach.

Croesawodd y Comisiynydd gynnwys safon sy'n ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau gyhoeddi trefniadau goruchwylio, gan ei ystyried yn arf allweddol ar gyfer asesu cydymffurfiaeth a hyrwyddo hunan-reoleiddio.

Ni chyflwynodd Cymdeithas yr Iaith unrhyw sylwadau a ystyriwyd yn berthnasol i'r cwestiwn hwn.

Awdurdodau Lleol

Pwysleisiodd awdurdodau lleol bwysigrwydd cadw cofnodion effeithiol ar gyfer monitro cydymffurfiaeth a galluogi gwelliant, gan amlinellu'r cofnodion manwl y maent yn eu cadw. Roeddent yn argymell bod LCCiaid yn ystyried cynnal a chofnodi data tebyg, gan gynnwys sgiliau iaith staff presennol er mwyn deall yr heriau a'r bylchau yn y gwasanaethau a ddarperir, yn enwedig ar gyfer gwasanaethau rheng flaen.

Arall (Anhysbys)

Awgrymodd 1 ymatebydd 'arall' y dylai safon 107 o fewn y rheoliadau drafft oedd yn destun ymgynghoriad gynnwys gofyniad i roi crynodeb o'r mathau o gwynion a dderbyniwyd a chadarnhad o'r camau a gymerwyd mewn ymateb i hynny.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

- Ni wnaethpwyd unrhyw newidiadau i'r Rheoliadau o ganlyniad i'r sylwadau hyn.

Sylwadau eraill:

| |
|---|
| Rydym yn ystyried y byddai'n well ymdrin â materion gweithredu a'r sylwadau ynghylch rhesymoldeb a chymesuredd y Rheoliadau a godwyd gan gyrff wrth drafod gyda'r Comisiynydd fel rhan o'r Hysbysiad Cydymffurfio. |

**Cwestiwn 6 – A oes gennych unrhyw sylwadau ar sut y gallai'r safonau a gynigir yn y rheoliadau ar gyfer LCCiaid fod yn berthnasol i is-gyrff neu weithgareddau masnachol LCCiaid?**

Aelodau o’r cyhoedd

Ni wnaeth 6 aelod o'r cyhoedd gyflwyno unrhyw sylwadau i'r cwestiwn hwn.

Mynegwyd pryder gan 1 aelod o'r cyhoedd y byddai ymestyn safonau i is-gyrff LCCiaid neu weithgareddau masnachol yn creu cymhlethdod a chostau diangen.

LCCiaid

Cyflwynodd 16 o LCCiaid sylwadau ynglŷn â’r cwestiwn hwn; cyfeiriodd 1 LCC at ymateb CCC ac ni wnaeth 1 LCC arall roi sylwadau penodol i’r cwestiwn hwn. Nododd 1 LCC nad oedd ganddo unrhyw sylwadau ar hyn o bryd.

Mynegodd 2 LCCiaid gefnogaeth i ymestyn y safonau i is-gwmnïau a gweithgareddau masnachol, ac nid oedd 1 LCC yn disgwyl rhyngweithio sylweddol gan gwsmeriaid â'i is-gwmnïau na'i weithgareddau masnachol. Nid oedd 1 LCC yn cytuno y dylai safonau fod yn berthnasol i weithgareddau masnachol.

Tynnodd ymatebwyr eraill sylw at gymhlethdod strwythurau sefydliadol, gan nodi bod is-gwmnïau'n aml yn gweithredu'n annibynnol neu y tu allan i gwmpas cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus, a gofynnwyd am eglurder ynghylch a fyddai safonau'n berthnasol mewn achosion o'r fath. Mynegodd rhai bryderon am effaith ariannol a gweithredol cydymffurfio, yn enwedig ar gyfer is-gwmnïau bach neu'r rheini sydd â rhyngweithio cyfyngedig â'r cyhoedd, gan gyfeirio at gostau cyfieithu, a heriau staffio. Roedd nifer o LCCiaid yn argymell dull gweithredu cymesur a graddol, gan awgrymu y dylai safonau ond fod yn berthnasol pan fydd is-gwmnïau'n cyflenwi gwasanaethau'n uniongyrchol i'r cyhoedd neu ar ran y rhiant-sefydliad ac roeddent yn croesawu rhagor o drafodaethau gyda'r Comisiynydd cyn derbyn eu hysbysiad cydymffurfio. Cynigiodd rhai LCCiaid ddulliau amgen, fel sicrhau bod is-gwmnïau yn alinio â pholisi iaith Gymraeg y rhiant-sefydliad yn wirfoddol yn hytrach na thrwy reoliadau statudol.

Roedd sylwadau eraill yn cynnwys pryderon ynghylch yr anawsterau o ran cymhwyso safonau i gontractwyr a chyflenwyr trydydd parti, yn enwedig busnesau bach a chanolig, oherwydd capasiti ac adnoddau cyfyngedig yn y Gymraeg.

Rhanddeiliaid polisi tai

Ni wnaeth 2 o ymatebwyr gyflwyno sylwadau penodol i’r cwestiwn hwn.

Nododd CCC fod barn gymysg ymysg yr aelodau ond mynegodd bryderon ynghylch hyfywedd cymhwyso safonau i is-gwmnïau a gweithgareddau masnachol. Nododd CCC fod llawer o LCCiaid yn credu y dylai hyn fod yn fater gwirfoddol, wedi’i lywio

gan Bolisi Iaith Gymraeg mewnol y rhiant-sefydliad yn hytrach na’i orfodi drwy reoleiddio.

Roedd pryderon hefyd am yr effaith ar gyflenwyr trydydd parti, yn enwedig busnesau bach a chanolig yn y sector adeiladu y mae LCC yn eu defnyddio ar gyfer gwasanaethau atgyweirio a chynnal a chadw, nad oes ganddynt yr adnoddau i gydymffurfio o bosibl. Roedd CCC o'r farn y gallai ymestyn y safonau i gyflenwyr trydydd parti heb ymgynghori nac asesiad sector-benodol roi baich cydymffurfio annheg ac anghymesur. Er mwyn osgoi eithrio darparwyr lleol a chynyddu costau, argymhellodd CCC mai dim ond i gontractau sy'n cael eu caffael ar ôl i'r Rheoliadau ddod i rym y dylai unrhyw ofynion newydd fod yn berthnasol.

Rhanddeiliaid polisi’r Gymraeg

Dywedodd 3 ymatebydd eu bod yn cefnogi cymhwyso safonau i is-gwmnïau a gweithgareddau masnachol.

Nododd Dyfodol i’r Iaith y dylai cytundebau neu gytundebau lefel gwasanaeth rhwng LCCiaid ac is-gwmnïau ddatgan yn glir bod disgwyl iddynt gydymffurfio â’r safon wrth ddelio â’r cyhoedd a staff.

Awgrymodd y Comisiynydd y dylai'r Rheoliadau bennu i ba raddau y mae'n rhesymol ac yn gymesur i safonau fod yn berthnasol i is-gwmnïau a gweithgareddau masnachol er mwyn sicrhau cysondeb ar draws y sector. Nodwyd bod risg y gallai cytuno ar yr hyn sy'n rhesymol ac yn gymesur drwy ymgynghoriadau unigol â chyrff arwain at anghysondebau, ac achosi oedi wrth weithredu'r dyletswyddau, gan greu ansicrwydd i'r cyhoedd ac i'r cyrff eu hunain.

Nododd Cymdeithas yr Iaith nad oedd y Rheoliadau oedd yn destun ymgynghoriad yn eithrio gweithgareddau masnachol a ddarperir gan LCCiaid gan ddadlau oherwydd y bydd disgwyl i LCCiaid gynnig gwasanaethau Cymraeg i denantiaid cymdeithasol, y dylai'r un peth fod yn berthnasol i unrhyw wasanaethau masnachol a gynigir ganddynt. Maent hefyd o'r farn na ddylai'r Rheoliadau roi pŵer i'r Comisiynydd arfer disgresiwn ar y mater hwn.

Awdurdodau Lleol

Cyflwynodd 4 awdurdod lleol sylwadau mewn ymateb i’r cwestiwn hwn.

Roedd 4 awdurdod lleol o blaid ymestyn safonau i is-gwmnïau a gweithgareddau masnachol lle mae gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu heffeithio, gan dynnu sylw at bwysigrwydd cysondeb i siaradwyr Cymraeg ni waeth pwy yw'r darparwr gwasanaeth. Gofynnodd 3 awdurdod lleol am ddiffiniad cliriach o’r term “Landlord” gan nodi bod cynghorau’n berchen ar asedau fel unedau busnes, siopau ac ati ac y gellid eu hystyried yn “Landlordiaid”. Codasant gwestiwn hefyd am drefniadau trosglwyddo asedau cymunedol. Nid oedd rhai o'r sylwadau hyn yn ymddangos yn berthnasol i'r cwestiwn penodol.

Arall (Anhysbys)

Ni chyflwynodd unrhyw ymatebydd ‘arall’ sylwadau i’r cwestiwn hwn.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Rydym yn parhau i ystyried y dylai'r Comisiynydd allu penderfynu a yw'n rhesymol ac yn gymesur i safonau fod yn berthnasol i is-gwmnïau a gwasanaethau masnachol LCCiaid.

Mae gan y Comisiynydd bwerau eisoes i osod amodau sy'n amlinellu o dan ba amgylchiadau y mae'n rhaid i gorff unigol gydymffurfio â safonau. Mae rhai LCCiaid wedi nodi yn eu hymatebion eu bod yn croesawu trafodaeth bellach gyda'r Comisiynydd o ran is-gwmnïau a gweithgareddau masnachol. Credwn fod y dull hwn yn fwy priodol na chynnwys eithriadau penodol yn y Rheoliadau eu hunain. Mae'r dull hwn hefyd yn rhoi hyblygrwydd i'r Comisiynydd fynnu bod LCCiaid yn cynyddu eu capasiti dros amser. Byddai eithriad cyffredinol neu restr gynhwysfawr o fewn y Rheoliadau o'r mathau o is-gwmnïau a allai fod yn ddarostyngedig i safonau yn golygu na fyddai hyn yn bosibl. Mae risg hefyd y gallai natur is-gwmnïau newid dros amser.

**Cwestiwn 7 - Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i ychwanegu Cartrefi Cymunedol Cymru at Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2)?**

| | *Cytuno* | *Anghytuno* | *Ddim yn cytuno nac yn anghytuno* |
|---|---|---|---|
| Aelodau o'r cyhoedd | | 4 | 1 |
| Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig | 2 | 9 | 6 |
| Rhanddeiliaid polisi tai | | 1 | |
| Rhanddeiliaid polisi'r Gymraeg | 3 | | |
| Awdurdodau Lleol | 4 | | |
| Arall (Anhysbys) | 1 | 1 | |
| **Cyfanswm** | **10** | **15** | **7** |

Ni fynegodd 6 (2 o randdeiliaid tai, 2 aelod o'r cyhoedd a 2 LCCiaid) farn ar y cynnig.

Aelodau o'r cyhoedd

Ni wnaeth 1 aelod o'r cyhoedd gyflwyno unrhyw sylwadau i gefnogi eu barn ddifater ar y cynnig.

Cafwyd sylwadau gan 4 aelod o'r cyhoedd oedd yn gwrthwynebu'r cynnig polisi yn gyffredinol. Roedd y sylwadau'n canolbwyntio ar bryderon ynghylch cost, baich gweinyddol, a'r angen i flaenoriaethu materion cymdeithasol dybryd fel fforddiadwyedd tai a thlodi. Teimlai ymatebwyr y byddai gosod gofynion ychwanegol ar CCC yn tynnu oddi ar ei genhadaeth graidd o gefnogi cymdeithasau tai.

LCCiaid

Nododd 2 LCCiaid eu bod yn cytuno â'r cynnig, 1 ar y sail bod hyblygrwydd i fodloni'r safonau a nododd y llall y dylai fod yn fater i CCCC ei hunain.

Nid oedd 9 LCCiaid yn cefnogi'r cynnig, a rhoddodd 7 ohonynt sylwadau i gefnogi eu hymateb. Cyfeiriasant at statws CCC fel sefydliad aelodaeth elusennol bach, annibynnol nad yw'n cynnig gwasanaethau cyhoeddus nac yn derbyn arian cyhoeddus. Ystyria nifer o'r LCCiaid hynny y byddai'r safonau'n gosod baich anghymesur ac yn hytrach awgrymodd y dylai CCC gryfhau ei gynllun gwirfoddol presennol neu fabwysiadu safonau'n wirfoddol.

Dywedodd 3 ymatebydd nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno â'r cynnig y dylid gadael y mater i CCC neu gyniwyd dulliau amgen fel mabwysiadu siarter iaith. Ni wnaeth 3 LCCiaid unrhyw sylw i gefnogi eu barn.

<u>Rhanddeiliaid polisi tai</u>

Cyflwynodd 2 ymatebydd sylwadau a oedd yn berthnasol i'r cwestiwn hwn.

Roedd Tai Pawb yn cefnogi'r cynnig i ddod â CCC o dan Reoliadau Safonau'r Gymraeg.

Roedd CCC yn gwrthwynebu'r cynnig yn gryf. Dywedodd CCC nad yw'n cynnig gwasanaethau cyhoeddus nac yn derbyn cyllid cyhoeddus, gan nodi mai ei rôl yw cynrychioli cymdeithasau tai annibynnol yn hytrach na chyrff cyhoeddus. Mae o'r farn bod ei gynnwys yn Rheoliadau Rhif 2 yn faich anghymesur gan nodi bod aelodau y Bwrdd yn rhannu'r farn hon yn unfrydol. Cred CCC y gall gefnogi ei aelodau orau drwy barhau i gryfhau ei gynllun gwirfoddol. Hefyd, darparodd Bwrdd CCC ymateb ysgrifenedig ar wahân i amlinellu ymhellach ei safbwynt ar y cynnig hwn.

<u>Rhanddeiliaid polisi'r Gymraeg</u>

Dywedodd 3 ymatebydd eu bod yn cefnogi'r cynnig; ni roddodd 2 unrhyw sylwadau pellach i gefnogi eu barn.

Nododd y Comisiynydd rôl gynrychioliadol CCC ar gyfer LCCiaid a gwnaeth gymariaethau â sefydliadau ymbarél eraill sydd eisoes yn ddarostyngedig i Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2).

<u>Awdurdodau Lleol</u>

Ymatebodd 4 awdurdod lleol i'r cwestiwn hwn gan gefnogi'r cynnig polisi, gan ddweud y byddant yn sicrhau bod gwaith cyfathrebu a pholisi CCC yn adlewyrchu'r un safonau ieithyddol a ddisgwylir gan ei aelodau. Roeddent yn teimlo y byddai ei gynnwys yn hyrwyddo cysondeb ac arweinyddiaeth wrth ddarparu gwasanaethau Cymraeg ar draws y sector. Nododd rhai hefyd ei fod yn gyfle arall i rannu arferion da a chydweithio wrth ddarparu gwasanaethau Cymraeg.

Cododd 3 awdurdod lleol gwestiwn am landlordiaid sydd â phortffolio o dai y maent yn eu gosod. Nid oedd hyn yn ymddangos yn berthnasol i'r cwestiwn penodol.

<u>Arall (Anhysbys)</u>

Ni chyflwynodd 1 ymatebydd sylwadau i gefnogi ei gytundeb â'r cynnig.

Roedd 1 ymatebydd yn gwrthwynebu'r cynnig ac yn mynegi pryder ynghylch pwysau ychwanegol ar LCCiaid a'r effaith negyddol bosibl ar gadw staff. Nid oedd rhai o'r sylwadau'n ymwneud â'r cynnig dan sylw.

| Ymateb Llywodraeth Cymru:<br><br>Rydym wedi cynnal trafodaethau pellach gyda CCC ar y cynnig yn dilyn eu hymateb i'r ymgynghoriad ac rydym yn bwriadu symud ymlaen i ddod â'r corff o dan safonau. |
|---|

**Cwestiwn 8 - Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i wneud pob safon o fewn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) yn benodol gymwys i CCC?**

| | *Cytuno* | *Anghytuno* | *Ddim yn cytuno nac yn anghytuno* |
|---|---|---|---|
| Aelodau o'r cyhoedd | 1 | 4 | 1 |
| Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig | 1 | 10 | 6 |
| Rhanddeiliaid polisi tai | | 1 | |
| Rhanddeiliaid polisi'r Gymraeg | 2 | | |
| Awdurdodau Lleol | 4 | | |
| Arall (Anhysbys) | 1 | 1 | |
| **Cyfanswm** | **9** | **16** | **7** |

Ni fynegodd 6 (2 o randdeiliaid tai, 1 rhanddeiliad y Gymraeg, 1 aelod o'r cyhoedd a 2 LCCiaid) farn ar y cynnig.

Aelodau o'r cyhoedd

Ni wnaeth 2 aelod o'r cyhoedd gyflwyno unrhyw sylwadau i gefnogi eu hymateb.

Cafwyd sylwadau gan 4 aelod o'r cyhoedd oedd yn gwrthwynebu'r cynnig polisi yn gyffredinol.

Mynegodd 1 ymatebydd bryder y byddai cymhwyso'r holl safonau i CCC yn ormodol ac yn anghyson â'i rôl strategol gan ddweud mai dull mwy cymesur fyddai cymhwyso dim ond y safonau hynny sy'n uniongyrchol berthnasol i swyddogaethau CCC ar gyfer y cyhoedd, os yw hynny'n berthnasol. Dywedodd ymatebydd arall y byddai'r cynnig yn gost i denantiaid neu drethdalwyr yn y pen draw.

LCCiaid

Dywedodd 1 LCC ei fod yn cytuno â'r cynnig, ond, y dylai fod yn fater i CCC.

Roedd 10 LCCiaid yn anghytuno â'r cynnig, cyfeiriodd 5 LCCiaid at eu hymateb i gwestiwn 7; ac ni wnaeth 1 LCC roi unrhyw sylwadau i gefnogi ei ymateb.

Rhoddodd 4 LCCiaid sylwadau tebyg i gwestiwn 7. Teimlent y byddai cymhwyso pob safon yn anghymesur ac yn feichus.

Nid oedd 6 LCCiaid yn cytuno nac yn anghytuno â'r cynnig. Cyfeiriodd 3 LCCiaid naill ai at eu hymateb i gwestiwn 7 neu roeddent o’r farn mai mater i CCC oedd hyn. Nododd 1 LCC sylwadau tebyg i'r rhai a oedd yn anghytuno â'r cynnig.

Cyfeiriodd 1 LCC at ymateb CCC.

Rhanddeiliaid polisi tai

Roedd CCC yn anghytuno'n gryf â'r cynnig, gan gyfeirio at ei ymateb i gwestiwn 7.

Ni wnaeth Tai Pawb na TPAS Cymru roi sylwadau penodol a oedd yn berthnasol i'r cwestiwn hwn.

Rhanddeiliaid polisi’r Gymraeg

Cytunodd Dyfodol i’r Iaith â’r cynnig heb roi sylw pellach.

Nododd ymateb y Comisiynydd ei bod yn cytuno â'r cynnig i wneud yr holl safonau o fewn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) yn gymwys i CCC.

Nid oedd ymateb Cymdeithas yr Iaith yn nodi’n benodol a oedd yn cefnogi’r cynnig ai peidio. Fodd bynnag, mae ei ymateb yn awgrymu ei fod yn disgwyl i safonau sy'n ymwneud â dyfarnu contractau gael eu gwneud yn benodol gymwys i CCC.

Awdurdodau Lleol

Roedd 4 awdurdod lleol yn cefnogi’r cynnig. Nodwyd bod cymhwyso’r holl safonau yn sicrhau cydymffurfiaeth gynhwysfawr ac yn osgoi unrhyw amwysedd. Nodwyd hefyd bod eu profiad o safonau yn helpu i gryfhau atebolrwydd a gwella ansawdd gwasanaethau.

Arall

Ni chyflwynodd 1 ymatebydd ‘arall’ sylwadau i gefnogi ei gytundeb â'r cynnig.

Cyflwynodd yr ymatebydd arall sylwadau a oedd yn awgrymu y dylai'r ddarpariaeth iaith fod yn ehangach ac nid yn gyfyngedig i'r Gymraeg. Nid oedd yn ymddangos bod y sylw hwn yn uniongyrchol berthnasol i'r cwestiwn hwn, a'i fod y tu allan i gwmpas yr ymgynghoriad.

| Ymateb Llywodraeth Cymru: |
|---|
| Rydym wedi cynnal trafodaethau pellach gyda CCC ar y cynnig yn dilyn eu hymateb i'r ymgynghoriad ac rydym yn bwriadu symud ymlaen i ddod â’r corff o dan safonau. |

**Cwestiwn 9 - Yn eich barn chi, beth fyddai effeithiau tebygol y cynigion ar yr iaith Gymraeg? Mae gennym ddiddordeb penodol mewn unrhyw effeithiau tebygol ar gyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.**

Aelodau o’r cyhoedd

Ymatebodd 5 aelod o'r cyhoedd i'r cwestiwn hwn.

Cyflwynodd 1 ymatebydd sylwadau oedd yn gwrthwynebu egwyddor gyffredinol safonau.

Gwelodd 1 ymatebydd botensial am effaith gadarnhaol gyfyngedig ond cwestiynodd gymesuredd y dull gweithredu, gan gynnig bod ffyrdd mwy effeithiol o hyrwyddo'r iaith sy'n canolbwyntio ar y gymuned (e.e. addysg cyfrwng Cymraeg a mentrau diwylliannol ar lawr gwlad). Awgrymodd 1 ymatebydd ei fod yn gwneud iddynt edrych yn llai ffafriol ar ymdrechion i hyrwyddo'r Gymraeg. Nododd 1 ymatebydd y dylid canolbwyntio mwy ar addysg a bod defnyddio Rheoliadau i orfodi'r defnydd o'r Gymraeg yn afresymol.

Awgrymodd 1 ymatebydd y dylai asiantaethau gosod sy'n darparu ar ran landlordiaid gynnig cytundebau tenantiaeth a gwasanaethau yn Gymraeg i'r sawl sy'n gofyn amdanynt.

LCCiaid

Ymatebodd 17 o LCCiaid i’r cwestiwn hwn yn benodol; cyfeiriodd 1 LCC at ymateb CCC ac ni ddarparodd LCC arall ymateb gan ddefnyddio’r ffurflen ymateb i’r ymgynghoriad.

Roedd mwyafrif y LCCiaid yn croesawu'r cynigion fel ffordd o hyrwyddo'r Gymraeg a sicrhau nad yw'n cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Tynnodd llawer sylw at gyfleoedd i normaleiddio dwyieithrwydd, gwella dewis tenantiaid, a chefnogi staff sy'n siarad Cymraeg. Fodd bynnag, codwyd pryderon am y goblygiadau ariannol ac adnoddau, yn enwedig mewn ardaloedd lle mae'r galw'n isel neu lle nad oes llawer o staff sy'n siarad Cymraeg. Galwodd nifer o LCCiaid am weithredu graddol a chymesur, gyda chymorth gan Lywodraeth Cymru ar ffurf cyllid, hyfforddiant ac adnoddau a rennir.

Rhanddeiliaid polisi tai

Ymatebodd 1 i’r cwestiwn hwn yn benodol.

Nododd CCC fod gan y cynigion y potensial i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn rhyngweithiadau bob dydd â LCCiaid yn ogystal â gwreiddio gofynion dwyieithog ar draws gwasanaethau i normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg a chefnogi dewis tenantiaid. Dywedodd CCC y gallai'r effaith ar staff amrywio, gyda siaradwyr Cymraeg yn debygol o elwa tra gallai rheiny nad ydynt yn medru’r Gymraeg deimlo'n ansicr ynghylch sut y bydd y safonau'n effeithio ar eu rolau, eu cynnydd a'u hyder yn y gwaith. Nodwyd heriau a risgiau recriwtio o ran darparu gwasanaethau cyson, yn enwedig ar gyfer LCCiaid llai. Pwysleisiodd CCC yr angen am ddull gweithredu graddol a chymesur, wedi'i gefnogi gan gyllid a hyfforddiant Llywodraeth Cymru, er mwyn osgoi dargyfeirio adnoddau o wasanaethau craidd o ran tai.

Roedd ymateb Tai Pawb hefyd yn awgrymu y byddai effeithiau cadarnhaol ar y Gymraeg gan nodi effaith gadarnhaol gwasanaethau Cymraeg ar denantiaid, staff a chymunedau. Roeddent yn croesawu’r Rheoliadau arfaethedig, gan gydnabod eu

potensial i gryfhau hawliau siaradwyr Cymraeg, sicrhau cysondeb ar draws y sector, a hyrwyddo hunaniaeth ddiwylliannol a chynhwysiant, ar yr un pryd â chefnogi'r hawl i gael tai digonol ac amcanion cydraddoldeb ehangach.

Roedd TPAS Cymru o'r farn bod y potensial i gynyddu cyfleoedd yn sylweddol i ddefnyddio'r Gymraeg a sicrhau nad yw'n cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

<u>Rhanddeiliaid polisi'r Gymraeg</u>

Tynnodd Dyfodol i'r Iaith sylw at gyfleoedd i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ymhlith tenantiaid a gwella'r gwaith o gasglu data ieithyddol. Awgrymodd hefyd y gallai'r cynigion helpu i gysoni darpariaeth tai ag anghenion cymunedau Cymraeg, yn enwedig mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol.

Ystyriodd Cymdeithas yr Iaith a'r Comisiynydd hefyd y byddai effeithiau cadarnhaol tebygol ar y Gymraeg. Mae'r Comisiynydd o'r farn y byddai'r cynnig yn cynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, ac yn gwella ansawdd ac amrywiaeth y gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael, gan wneud disgwyliadau'n gliriach i'r cyhoedd ac i'r cyrff.

<u>Awdurdodau Lleol</u>

Cyflwynodd 4 awdurdod lleol ymatebion bron union yr un fath i'r cwestiwn hwn.

Nodwyd bod y cynigion yn debygol o gael effaith gadarnhaol, gan gyfeirio at eu profiad eu hunain o weithredu safonau. Nodwyd bod gweithredu rhagweithiol yn cynyddu hyder a defnydd y cyhoedd o'r Gymraeg a bod hyfforddi staff a hyrwyddo gwasanaethau dwyieithog yn allweddol. Dywedasant y dylai pawb sy'n gosod tai yng Nghymru fod yn ddarostyngedig i'r safonau, waeth beth fo'u lleoliad.

<u>Arall (Anhysbys)</u>

Cyflwynodd 1 ymatebydd 'arall' sylwadau yn mynegi amheuaeth am unrhyw effeithiau cadarnhaol, yn enwedig os ystyrir eu bod yn cael eu gorfodi ar staff ond eu bod yn cefnogi'r anogaeth i ddysgu Cymraeg.

**Cwestiwn 10 - Yn eich barn chi, a allai unrhyw rai o'r cynigion gael eu llunio neu eu newid er mwyn gwneud iddynt:**

- **gael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau mwy cadarnhaol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; neu**
- **lliniaru unrhyw effeithiau negyddol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?**

<u>Aelodau o'r cyhoedd</u>

Cyflwynodd 4 aelod o'r cyhoedd ymateb i'r cwestiwn hwn.

Awgrymodd 1 ymatebydd y gellid gwella'r cynigion drwy newid o ddull rheoleiddio i fentrau gwirfoddol sy'n cael eu harwain gan y gymuned, gyda chymhellion a chefnogaeth gan Lywodraeth Cymru. I liniaru effeithiau negyddol, maent yn awgrymu y dylai'r Llywodraeth ystyried cynnal dadansoddiad cost a budd o'r cynigion hyn, a

sicrhau bod unrhyw ofynion newydd yn gymesur, yn hyblyg ac yn ymateb i'r realiti economaidd sy'n wynebu cyrff a'r cyhoedd.

Nid oedd 2 ymatebydd o'r farn y gellid gwella'r cynigion, roedd un yn galw am ddileu'r cynigion yn llwyr, ac roedd un arall yn mynegi pryder ynghylch blaenoriaethu a pherthnasedd yn y cyd-destun economaidd-gymdeithasol presennol.

Cynigiodd 1 ymatebydd y dylid defnyddio 'Cymraeg Clir' a drafftio fersiynau Cymraeg a Saesneg ar yr un pryd yn hytrach na chyfieithu, gan gyfeirio at arferion yn New Brunswick.

<u>LCCiaid</u>

Ymatebodd 16 o LCCiaid yn benodol i'r cwestiwn hwn; cyfeiriodd 2 LCCiaid at ymatebion cynharach; nododd 1 LCC nad oedd ganddo unrhyw sylwadau; cyfeiriodd 1 LCC at ymateb CCC ac ni ddarparodd LCCiaid arall ymateb drwy'r ffurflen ymgynghori.

Pwysleisiodd ymatebwyr yr angen am hyfforddiant Cymraeg hygyrch ac am ddim i staff ar bob lefel, ochr yn ochr â chymorth ariannol i dalu costau cyfieithu, TG a hyfforddi. Roedd cefnogaeth gref i gydweithio ar draws y sector, gan gynnwys rhannu offer ac arferion gorau. Ystyriwyd bod hyblygrwydd o ran cydymffurfio yn hanfodol, gan gydnabod y galw lleol, capasiti'r gweithlu a'r cyd-destun gweithredu.

<u>Rhanddeiliaid polisi tai</u>

Ymatebodd 1 i'r cwestiwn hwn yn benodol.

Ategodd CCC lawer o'r pwyntiau a godwyd gan LCCiaid, gan gynnwys cefnogaeth ar gyfer gweithredu graddol, hyfforddiant, amgylchedd cyllido cefnogol, a mwy o eglurder ynghylch cwmpas a dehongli safonau penodol. Nododd CCC ei fod yn agored i weithio gyda Llywodraeth Cymru a'r Comisiynydd i gefnogi aelodau a phwysleisiodd fod angen i'r cynigion fod yn hyblyg ac yn gymesur er mwyn peidio â thynnu oddi wrth genhadaeth graidd LCCiaid i fynd i'r afael â'r argyfwng tai.

<u>Rhanddeiliaid polisi'r Gymraeg</u>

Ymatebodd 1 i'r cwestiwn hwn yn benodol.

Roedd Dyfodol i'r Iaith yn gefnogol, gan nodi y gallai'r cynigion ddylanwadu'n gadarnhaol ar y system sgorio ar gyfer ceisiadau am dai cymdeithasol mewn cymunedau Cymraeg.

<u>Awdurdodau Lleol</u>

Cyflwynodd 4 awdurdod lleol sylwadau i'r cwestiwn hwn.

Roedd yr ymatebion yn cyd-fynd yn fras o ran cynnwys gan awgrymu y byddai hyfforddi a datblygu staff o ran y Gymraeg, arwyddion a phlatfformau digidol dwyieithog, ac ymgysylltu cryfach â chymunedau Cymraeg yn gwella'r effeithiau cadarnhaol. Er mwyn lliniaru heriau posibl, roeddent yn argymell adnoddau digonol ar gyfer cyfieithu, cynnal archwiliadau sgiliau, a sicrhau gweithdrefnau cwyno

cadarn. Pwysleisiodd 3 awdurdod lleol hefyd bwysigrwydd cysondeb gan ddweud y dylai safonau hefyd fod yn berthnasol i landlordiaid y tu allan i Gymru.

Arall (Anhysbys)

Ni chyflwynodd unrhyw ymatebydd 'arall' ymateb i'r cwestiwn hwn.

**Cwestiwn 11 - Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw'n benodol, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi:**

Aelodau o'r cyhoedd

Cyflwynodd 3 aelod o'r cyhoedd sylwadau i'r cwestiwn hwn.

Roedd 1 ymatebydd eisiau gwybod beth oedd cost y broses ymgynghori.

Awgrymodd 1 ymatebydd y dylai Llywodraeth Cymru flaenoriaethu materion economaidd a chymdeithasol dros reoleiddio iaith.

Gofynnodd ymatebydd arall am eglurder ynghylch cwmpas y safonau, yn enwedig o ran LCCiaid sy'n darparu cartrefi gofal, gwasanaethau cymorth, a gweithgareddau cymunedol a datblygu, a gofynnodd am gadarnhad y bydd pob agwedd ar eu gwaith yn dod o dan y safonau.

LCCiaid

Ni wnaeth 7 LCCiaid ymateb i'r cwestiwn hwn; cyfeiriodd 1 LCC at ymateb CCC; roedd 2 ymateb gan LCCiaid yn ymddangos yn fwy perthnasol i gwestiynau eraill.

Yn gyffredinol, roedd LCCiaid a gynigiodd sylwadau yn cefnogi egwyddor safonau ond yn mynegi pryderon am gymesuredd, cost ac effaith weithredol. Roedd y prif faterion yn cynnwys yr angen i weithredu'n raddol ac yn hyblyg, yn enwedig mewn ardaloedd lle mae'r galw am y Gymraeg yn isel, a phryderon ynghylch capasiti staff, hyfforddiant, a dargyfeirio adnoddau o wasanaethau craidd. Roedd ymatebwyr hefyd yn galw am fframweithiau cydymffurfio cliriach ar gyfer LCCiaid sy'n gweithredu ar draws nifer o awdurdodau lleol, yn pryderu ynghylch risgiau ailddosbarthu allai effeithio ar fenthyca a buddsoddi, ac yn tynnu sylw at bwysigrwydd cydnabod ieithoedd cymunedol er mwyn osgoi eithrio pobl nad ydynt yn medru'r Gymraeg. Gofynnodd nifer o LCCiaid am gyllid ac arweiniad gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r broses weithredu.

Rhanddeiliaid tai

Cyflwynodd 3 rhanddeiliad sylwadau a oedd yn berthnasol i'r cwestiwn hwn.

Mynegodd TPAS Cymru, Tai Pawb a CCC gefnogaeth i'r safonau, gan dynnu sylw at bwysigrwydd dewis tenantiaid, cydraddoldeb ieithyddol, a chynhwysiant diwylliannol. Roeddent yn pwysleisio'r angen am weithredu cymesur, raddol wedi'i gefnogi'n dda ac yn argymell cymorth wedi'i ariannu gan y llywodraeth ar gyfer hyfforddiant hygyrch ac am ddim, datblygu digidol, ac arweiniad ymarferol.

Mae CCC yn argymell dull gweithredu pwrpasol ar gyfer lleoliadau Gofal a Thai â Chymorth sy'n cydnabod cyd-destun rheoleiddio unigryw, realiti gweithredol ac anghenion preswylwyr ac nad yw'n peryglu egwyddorion gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae CCC o'r farn y gallai'r safonau arfaethedig ar gyfer LCCiaid ddyblygu neu wrthdaro â dulliau presennol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn mewn lleoliadau gofal wedi’u rheoleiddio. Mae CCC yn awgrymu bod dull gweithredu wedi'i deilwra, mewn sgwrs â Chomisiynydd y Gymraeg, yn hanfodol i sicrhau bod y safonau'n gwella yn hytrach nag yn llesteirio'r gwaith o ddarparu gofal.

Dywedodd CCC hefyd fod cyfran nodedig o denantiaid tai cymdeithasol yn wynebu heriau llythrennedd a phwysleisiodd bwysigrwydd sicrhau bod gwybodaeth yn ddealladwy ac yn hygyrch. Cynigiodd CCC ymgorffori caniatâd ymhlyg neu ddefnyddio data sy'n seiliedig ar y Cyfrifiad ar gyfer safonau lle nad yw dewisiadau tenantiaid yn glir, gan roi hyblygrwydd i LCCiaid gadw cyfathrebiadau'n gynhwysol.

Dywedodd TPAS Cymru fod cyfle hefyd i gysoni safonau â'r newidiadau sydd ar y gweill i'r Polisi Rhenti Cymdeithasol.

<u>Rhanddeiliaid polisi’r Gymraeg</u>

Mynegodd Dyfodol i’r Iaith bryderon am y diffyg ystyriaeth i allu yn y Gymraeg mewn systemau dyrannu tai, a galwodd am drafodaeth genedlaethol i alluogi newid yn y maes hwn.

Mynegodd Cymdeithas yr Iaith y dylai safonau fod yn berthnasol i bob cymdeithas dai sy'n cyflenwi gwasanaethau i denantiaid yng Nghymru, ble bynnag y maent wedi'u cofrestru. Maent yn tynnu sylw at y ffaith y gallai eithrio landlordiaid sydd wedi cofrestru yn Lloegr sydd ag eiddo yng Nghymru greu anghydraddoldeb ieithyddol mewn cymunedau Cymraeg. Maent yn galw am drafodaethau rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU er mwyn gallu cymhwyso safonau i landlordiaid o'r fath.

Mae Cymdeithas yr Iaith hefyd yn codi pryderon am y ddarpariaeth pan fo LCCiaid yn cyflenwi gwasanaethau ar ran corff arall, gan y byddai safonau'r corff comisiynu hwnnw yn berthnasol yn lle hynny. Maent yn dadlau y gallai hyn arwain at anghysondebau os oes gan y corff comisiynu safonau is neu os nad yw safonau yn gymwys, gan arwain at wasanaethau Cymraeg anghyfartal i denantiaid. Maent yn argymell, mewn achosion o’r fath, y dylai safonau’r LCCiaid ei hun fod yn berthnasol oni bai bod natur y gwasanaeth yn sylfaenol wahanol a bod safonau’r corff comisiynu yn diogelu hawliau iaith yn well. Maent hefyd yn galw am eglurder ynghylch ystyr “gweithredu ar ran,” gan fod cymdeithasau tai yn aml yn gweithio fel asiantau, contractwyr, neu mewn partneriaethau, gan gynnwys gyda chwmnïau preifat nad ydynt yn o dan safonau o gwbl.

Mae Cymdeithas yr Iaith hefyd o'r farn y dylid cael safonau hybu penodol i LCCiaid.

<u>Awdurdodau Lleol</u>

Ymatebodd 3 awdurdod lleol i'r cwestiwn hwn yn benodol.

Gofynnodd awdurdodau lleol am eglurder ynghylch sut byddai hysbysiadau cydymffurfio yn berthnasol i LCCiaid sy'n gweithredu ar draws nifer o ardaloedd

cynghorau. Roeddent yn argymell bod LCCiaid yn mabwysiadu rhaglenni cydymffurfio strwythuredig a bod safonau iaith yn cael eu hintegreiddio i fframweithiau cydraddoldeb ac amrywiaeth ehangach.

Arall (Anhysbys)

Ni chyflwynodd unrhyw ymatebydd ‘arall’ ymateb i’r cwestiwn hwn.

| |
|---|
| Ymateb Llywodraeth Cymru:<br><br>Nid yw safonau hybu yn gategori o safonau a restrir yn erbyn darparwyr tai cymdeithasol yn Atodlen 6 i’r Mesur. Dim ond gyda'u caniatâd nhw y gellir gwneud safonau hybu yn benodol gymwys i'r cyrff hyn.<br><br>Nid yw'r Rheoliadau yn ymestyn i unedau tai yng Nghymru sy'n eiddo i ddarparwyr tai yn Lloegr. Mae data diweddaraf Llywodraeth Cymru yn dangos bod darparwyr tai yn Lloegr ym mis Mawrth 2025 yn berchen ar 209 o unedau tai cymdeithasol yng Nghymru[1], felly nid ydym o'r farn y byddai'n rhesymol iddynt fod yn ddarostyngedig i safonau.<br><br>Mewn perthynas â sut mae safonau'n berthnasol i wasanaethau a ddarperir "ar ran" y corff a'r rhai y mae'r corff yn eu darparu "ar ran" corff arall, mae'r Rheoliadau yn cyd-fynd â'r dull a gymerwyd yn y rhan fwyaf o Reoliadau blaenorol.<br><br>Rydym o'r farn bod y risg o ailddosbarthu cyrff yn isel iawn. |

## 5. Y Camau Nesaf

Caiff Gorchymyn a Rheoliadau eu gosod gerbron y Senedd a rhaid eu cymeradwyo mewn pleidlais mewn Cyfarfod Llawn. Ni fydd y Gorchymyn a'r Rheoliadau, os dônt i rym, yn cael effaith uniongyrchol ar gyrff ac ni fyddant, ar eu pen eu hunain, yn creu hawliau i ddefnyddwyr Cymraeg. Bydd y Gorchymyn yn ychwanegu CCC at Atodlen 6 i'r Mesur fel y gellir ei ychwanegu drwy’r Reoliadau at Reoliadau Rhif 2. Bydd Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 10) 2026 yn gwneud safonau'n benodol gymwys i LCCiaid.  Bydd hyn yn galluogi'r Comisiynydd i'w gwneud yn ofynnol i'r cyrff hyn gydymffurfio â safonau. Mater i'r Comisiynydd fydd dewis pa safonau i'w gosod ar gyrff drwy gyfrwng Hysbysiad Cydymffurfio. Mae'r Rheoliadau yn pennu'r amrywiaeth o safonau y gellid eu gosod ar gorff. Mae’n bosibl mai dim ond mewn rhai amgylchiadau y bydd yn rhaid i gorff gydymffurfio â safon - yn ddibynnol ar yr hyn a nodir yn eu Hysbysiad Cydymffurfio. Bydd yr Hysbysiad Cydymffurfio hefyd yn pennu erbyn pa ddyddiad y mae'n ofynnol i'r corff gydymffurfio â safon. Yn gyffredinol, nid yw Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid ychwanegol i gyrff gydymffurfio â safonau. Bydd cyfle i gyrff drafod gyda'r Comisiynydd pa ofynion sy'n rhesymol ac yn gymesur i'w gosod ar gyrff unigol fel rhan o'r broses o roi Hysbysiad Cydymffurfio.

[1] Stoc tai landlordiaid cymdeithasol a rhent: ar 31 Mawrth 2025 [HTML] | LLYW.CYMRU